# Rhagair

Mae’r arolygiad hwn o waith troseddau pobl ifanc yng Nghasnewydd yn un o nifer fechan o arolygiadau llawn ar y cyd rydym yn ymgymryd â hwy bob blwyddyn gyda chydweithwyr o’r arolygiaethau cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol, iechyd a dysgu a sgiliau.

Mae mwyafrif y Timau Troseddwyr Ifanc a ddetholwyd ar gyfer yr arolygiadau hyn yn rhai y mae eu perfformiad – yn seiliedig ar Ddangosyddion Cyfiawnder Ieuenctid Cenedlaethol wedi’u hategu gan wybodaeth arall, megis arolygiadau diweddar – yn destun pryder sylweddol. O bryd i'w gilydd, rydym hefyd yn cynnwys ardaloedd sy’n perfformio’n dda er mwyn sefydlu meincnod arfer da.

Dewisom arolygu yng Nghasnewydd yn sgil cynnydd parhaus yn amlder yr aildroseddu a oedd yn digwydd law yn llaw â lefelau uchel yn nifer y rhai sy’n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf.


Yn ddiweddar mae Casnewydd wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y plant a phobl ifanc sy’n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw wedi bod yn effeithiol mewn lleihau aildroseddu. Y gyfradd aildroseddu gyhoeddedig ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghasnewydd ar adeg yr arolygiad oedd 37.6%. Roedd hwn yn parhau i fod yn waeth na’r perfformiad ar gyfartaledd ar gyfer Cymru (37%) ac ar gyfer Cymru a Lloegr gyda’i gilydd (35.5%).

Darganfuom fod ansawdd y gwaith gyda phlant a phobl ifanc oedd wedi troseddu wedi lleihau’n sylweddol ers ein harolygiad diwethaf yn 2010. Mae angen i fwrdd rheoli a thîm rheoli’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sicrhau fod ansawdd y gwaith yn gwella’n sylweddol ac yn gyflym. Mae angen iddynt ganolbwyntio gwaith y tîm yn ddigonol er mwyn lleihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd, a sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaeth. Yn benodol, mae angen gwaith brys er mwyn sicrhau bod tîm rheoli’r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gweithio’n effeithiol.

Rydym yn falch o nodi bod uwch reolwyr yn derbyn ein canfyddiadau ac wedi ymrwymo i gyflawni gwelliannau cyflym.

Mae’r argymhellion ar dudalen pedwar o’r adroddiad hwn yn nodi’r meysydd allweddol ble dylid canolbwyntio’r gwaith datblygiadol yn sgil yr arolygiad. Eu bwriad yw cynorthwyo Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd a’i phartneriaid yn ei welliannau parhaus.

Yn sgil y perfformiad gwael a adnabuwyd yn yr arolygiad hwn byddwn yn dychwelyd i Gasnewydd i gynnal arolygiad pellach, sy’n debygol o ddigwydd o fewn 12 i 24 mis o gyhoeddi’r adroddiad hwn.



***Paul McDowell***

*Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi*

*Medi 2014*

# Crynodeb

### Lleihau aildroseddu ★☆☆☆

*Yn gyffredinol roedd gwaith i leihau aildroseddu'n wael.* Nid oedd blaenoriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i waith i leihau aildroseddu. Dylid gwneud mwy o ddefnydd o bartneriaid i fynd i'r afael ag anghenion yn ymwneud â lles er mwyn i'r YOS allu canolbwyntio'u sgiliau'n effeithiol ar leihau aildroseddu. Mae ansawdd cyffredinol y gwaith angen gwella'n gyflym ac yn sylweddol gyda staff yn cael eu dwyn i gyfrif yn gyson ac yn effeithiol yn unol â hyn. Fe welsom rywfaint o waith da o fewn y tîm Goruchwylio ac Arolygu Dwys; fodd bynnag roedd hwn yn cael ei wneud yn annibynnol o reolwr yr achos. Nid oedd tîm rheoli'r YOS yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Roedd hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r safon wael yn gyffredinol.

### Amddiffyn y cyhoedd ★☆☆☆

*Yn gyffredinol roedd gwaith i amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr gwirioneddol neu ddioddefwyr posibl yn wael.* Tra bod yr asesiad yn well na mewn rhannau eraill o waith yr YOS, wedi hynny roedd ansawdd y gwaith yn gyffredinol yn wael. Yn rhy aml, nid oedd y gwaith a wnaethpwyd yn cyd-fynd ag anghenion yr achos, ac yn benodol roedd angen rhoi mwy o sylw i ddioddefwyr hysbys. Ychwanegwyd at yr anawsterau gyda'r gwaith hwn gyda dryswch am weithrediad panel rheoli risg yr YOS a goruchwylio annigonol gan reolwyr.

### Amddiffyn plant a phobl ifanc ★☆☆☆

*Yn gyffredinol roedd gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau'u breuder yn wael.* Y rheswm yn aml oedd bod breuder yn cael ei ystyried yn unol ag amddiffyn plant a hunan-niwed bwriadol yn unig, gan anwybyddu ymddygiad peryglus arall megis defnydd o alcohol neu gyffuriau, gan gynnwys pan fod hyn yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol. Yn eironig, wrth feddwl am y flaenoriaeth a roddir i anghenion lles y'u hadnabyddir mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, nid oedd rheolwyr achos yn adnabod y ddealltwriaeth ehangach o freuder sy'n berthnasol trwy gydol y system cyfiawnder ieuenctid. Roedd angen rhoi sylw i weithio ar y cyd yn fwy effeithiol gyda gwasanaethau plant cymdeithasol Casnewydd, gan gynnwys sicrhau bod cyfeiriadau sy'n cael eu gwneud gan yr YOS o ansawdd da.

### Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni ★★☆☆

*Yn gyffredinol roedd gwaith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni yn anfoddhaol.* Roedd staff yn adnabod y plant a'r bobl ifanc yn dda; fodd bynnag nid oeddent yn eu cynnwys yn ddigonol wrth asesu a chynllunio ar gyfer y newidiadau roedd angen iddynt wneud yn eu bywydau. Gellir gwneud mwy i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros ufuddhau i'r ddedfryd. Nid oedd panel ufuddhau'r YOS yn effeithiol. Fodd bynnag, pan nad oedd plant a phobl ifanc yn ufuddhau i'w dedfryd roedd yr ymateb cychwynnol yn aml yn briodol.

### Llywodraethu a phartneriaethau ★☆☆☆

*Yn gyffredinol roedd effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a phartneriaethau yn wael.* Nid oedd y Bwrdd Rheoli wedi sicrhau bod y gwaith i leihau troseddu yn effeithiol nag o ansawdd digonol. Nid oedd y wybodaeth roedd y bwrdd rheoli yn defnyddio i gefnogi hyn yn ddefnyddiol chwaith. Roedd Casnewydd wedi cyflawni gostyngiadau sylweddol yn nifer y rhai sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf, ac roeddem yn falch o weld bod cyfiawnder ieuenctid yn cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau lleol allweddol, er roedd gwaith pellach i'w wneud er mwyn sicrhau bod modd monitro'r rhain yn effeithiol. Roedd angen i'r cynnig o wasanaethau trwy gyfrwng y

Gymraeg bod yn fwy rheolaidd. Doedd dim ymagwedd gadarn na chyson er mwyn sicrhau ansawdd yr ymarfer ac roedd staff wedi’u drysu gan negeseuon cymysg. Roedd hunanfoddhad wedi datblygu ynglŷn â sicrhau arferion o ansawdd da ac roedd morâl yn isel. Roedd datrys y problemau hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni gwelliannau cynaliadwy.

### Ymyriadau i leihau aildroseddu ★☆☆☆

*Yn gyffredinol roedd gwaith yn ymwneud â chyflwyno ymyriadau i leihau aildroseddu yn wael.* Cawsom anhawster yn dod o hyd i waith a oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Nid oedd gan staff offer digonol i'w cynorthwyo i ddeall pa ymyriadau oedd ar gael, ac i dargedu’r rhain yn briodol i blant a phobl ifanc unigol. Doedd dim cynllunio systematig i gaffael ymyriadau, neu i werthuso pa ymyriadau gallai fod wedi gwneud gwahaniaeth. Roedd angen gwelliannau sylweddol i'r dulliau asesu a chynllunio. Roedd angen rhoi mwy o sylw i leferydd, iaith a chyfathrebu a ffactorau amrywiaeth perthnasol eraill.

## Argymhellion

Dylai'r gwaith i wella yn sgil yr arolygiad ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol: (awgrymir mewn cromfachau pwy ddylai gymryd prif gyfrifoldeb dros bob un )

1. Dylai'r Bwrdd Rheoli sicrhau bod aildroseddu yn lleihau, bod gwaith yr YOS o ansawdd da a bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni ar draws pob math o ymyrraeth. (Prif Weithredwr Cyngor Dinas Casnewydd)
2. Dylai gwybodaeth a ddefnyddir gan y Bwrdd Rheoli fod yn berthnasol, yn gyfoes, yn ddealladwy ac yn ddefnyddiol er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol. (Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r YOS)
3. Dylai tîm rheoli'r YOS weithio'n effeithiol, gan roi arweiniad clir a chyson i'r YOS a sicrhau gwaith o ansawdd da. (Rheolwr a thîm rheoli'r YOS)
4. Dylid gwella ansawdd, cynllunio a chyflwyniad ymyriadau, fel bod y YOS yn gwneud cyfraniad digonol i leihau aildroseddu, amddiffyn y cyhoedd a lleihau breuder plant a phobl ifanc. Dylai asiantaethau partner gyfrannu at asesiadau, a dylid cynnwys amcanion perthnasol i'w gwaith mewn cynlluniau. (Rheolwr y YOS)
5. Dylid cael ymagwedd systematig i sicrhau bod ansawdd y gwaith yn effeithiol wrth wella arferion, yn cael ei roi ar waith yn gyson, a'i fonitro gan y Bwrdd Rheoli. (Rheolwr y YOS a Chadeirydd Bwrdd Rheoli'r YOS)
6. Dylai'r YOS sicrhau bod ffocws digonol yn cael ei rhoi i leihau troseddu mewn achosion unigol. Ble fo'n briodol, dylid cyfeirio at les a dylai partneriaid fynd i'r afael â hyn. (Rheolwr y YOS a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)
7. Dylid rhoi blaenoriaeth uwch i anghenion dioddefwyr. Dylent gael eu hamddiffyn, gyfrannu at orchmynion cyfeirio, a chael mynediad at gyfiawnder adferol ble fo'n briodol. (Rheolwr y YOS)
8. Dylai ystod eang o ymyriadau fod ar gael i leihau aildroseddu y'u defnyddir yn effeithiol. Dylai staff wybod beth sydd ar gael a derbyn hyfforddiant i'w defnyddio. (Rheolwr y YOS)
9. Dylai'r Bwrdd Rheoli a phartneriaid allweddol, yn enwedig rhai iechyd ac addysg, sicrhau bod plant a phobl ifanc gydag anghenion lleferydd ac iaith yn gallu ymrwymo'n effeithiol gyda gwaith y YOS. (Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r YOS)
10. Dylai gwaith ar y cyd â gwasanaethau plant eraill fod yn effeithiol. Dylai gael ei gefnogi gan ddefnydd cyson o system rheoli achos y gwasanaethau plant, cyfarwyddyd clir a chyfeiriadau o ansawdd uchel. (Rheolwr y YOS a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol).
11. Dylai rôl heddweision y YOS gyfateb â chyfarwyddyd cyfredol; cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i amddiffyn y cyhoedd, lleihau aildroseddu a chynorthwyo i ostwng breuder plant a phobl ifanc. (Cynrychiolydd yr Heddlu ar Bwrdd Rheoli'r YOS).
12. Dylid gwella cyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r YOS. (Cynrychiolydd Addysg ar Bwrdd Rheoli'r YOS).

# Cynnwys

**Rhagair** .......... 1

**Crynodeb** .......... 2

**Argymhellion** .......... 4

**Cynnwys** .......... 5

**Thema 1: Lleihau aildroseddu** .......... 6

**Thema 2: Amddiffyn y cyhoedd** .......... 12

**Thema 3: Amddiffyn plant a phobl ifanc** .......... 16

**Thema 4: Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni** .......... 21

**Thema 5: Llywodraethu a phartneriaeth** .......... 26

**Thema 6: Ymyriadau i leihau aildroseddu** .......... 32

**Atodiad 1 Gwybodaeth gefndirol ynglŷn â'r ardal a arolygwyd** .......... 35

**Atodiad 2 Gwybodaeth gefndirol ynglŷn â sampl yr achos a arolygwyd** .......... 36

**Atodiad 3 Cydnabyddiaeth** .......... 37

**Atodiad 4 Trefniadau arolygu** .......... 38

**Atodiad 5 Rhestr eirfa** .......... 39

**Atodiad 6 Ymagwedd sgorio** .......... 40

**Atodiad 7 Meini prawf** .......... 41

**Atodiad 8 Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer** .......... 44

# Thema 1: Lleihau aildroseddu

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**

Gan mai diben y system cyfiawnder ieuenctid yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc rydym yn disgwyl i bartneriaid cyfiawnder ieuenctid gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus trwy ymgymryd ag asesu a chynllunio ac ansawdd da, gwneud ymyriadau priodol a dangos arweiniad cadarnhaol a rheolaeth effeithiol.

**Sgôr asesiad yr achos**

O fewn asesiad yr achos, yn gyffredinol roedd 41% o'r gwaith i leihau aildroseddu yn cael ei wneud yn ddigon da.

**Canfyddiadau Allweddol**

1. Cyfraddau aildroseddu yn parhau i fod yn rhy uchel.
2. Ffocws annigonol ar waith i leihau aildroseddu.
3. Nid oedd ymyriadau gyda'r bwriad o leihau aildroseddu yn cael eu gwneud fel oedd yn ofynnol gan anghenion achosion unigol.
4. Roedd gwaith mewn achosion yn y ddalfa yn dda ar y cyfan.
5. Mae angen gwella asesu a chynllunio yn sylweddol.
6. Nid oedd adolygiadau digonol o asesiadau, cynlluniau ac ymyriadau.
7. Nid oedd staff yn cael eu dwyn i gyfri ddigon dros ansawdd eu gwaith.
8. Roedd y Goruchwylio ac Arolygu Dwys yn gadarnhaol.
9. Nid oedd tîm rheoli'r YOS yn gweithio'n effeithiol, ac roedd hyn yn effeithio ar ansawdd y gwaith.
10. Roedd gwaith yn ymwneud ag iechyd yn gadarnhaol, ond nid oedd cyswllt clir rhwng y gwaith a lleihau troseddu.
11. Mae angen rhoi mwy o sylw i ddioddefwyr a chyfiawnder adferol.
12. Nid oedd digon o sylw yn cael ei roi i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, a ffactorau amrywiaeth eraill.

**Esboniad o'r canfyddiadau**

1.1. Nid oedd gwaith y YOS yn gwneud cyfraniad digonol i leihau aildroseddu. Dros y blynyddoedd diwethaf mae cynnydd cyson wedi bod yn aildroseddu yng Nghasnewydd. Tra bod dangosyddion cychwynnol yn awgrymu bod y cynnydd wedi dod i ben, doedd dim tystiolaeth o ostyngiad cynaliadwy.

1.2. Mewn nifer o achosion nid oedd yn glir pa ymyriadau, os o gwbl, oedd wedi'u bwriadu i leihau aildroseddu oedd wedi cael eu defnyddio. Fel arfer doedd dim rheswm clir pam, heblaw am fod rheolwr achos wedi canolbwyntio cymaint ar anghenion lles bod dim cyfle'n weddill i fynd i'r afael ag ymddygiad yn ymwneud â throseddu. Roedd hyn mewn cyferbyniad i'r hyn rydym wedi'i darganfod mewn arolygiadau eraill, ble roedd ymgais rhesymol yn aml wedi cael ei wneud i ddefnyddio ymyriadau priodol hyd yn oed pan roedd yr asesu a chynllunio yn annigonol.

1.3. Roedd cyswllt clir rhwng cynllunio a'r ymyriadau a wnaethpwyd mewn llai na hanner o'r achosion. Mewn bron i ddau draean o'r achosion nid oedd adolygiad digonol o gynnydd – fel arfer oherwydd does dim adolygiad wedi cael ei wneud. Dywedodd arolygydd "*pe bawn i'n cildroi nifer o gynlluniau o'r hyn gafodd ei wneud mewn gwirionedd yn yr achos, byddai'r cynllun wedi darllen 'Rwyf yma os ydych chi fy angen'".* Trwy beidio â sicrhau pwyslais digonol ar leihau'u aildroseddau, roedd plant a phobl ifanc yn cael eu hesgeuluso.

1.4. Roeddem yn falch o weld rhai achosion ble roedd y rheolwr wedi ceisio ymgymryd â gwaith effeithiol i leihau aildroseddu. Roedd sylw da fel arfer yn cael ei rhoi i'r ffactorau cadarnhaol hynny a allai gyfrannu at leihau aildroseddu.

1.5. Fe welsom ymagwedd gadarnhaol i gyflwyno gwaith yn ymwneud ag ymddygiad troseddol mewn nifer o achosion Goruchwylio ac Arolygu Dwys (ISS), gan gynnwys gwneud defnydd o weithgareddau adferiad a rhai eraill fel cyfleoedd i drafod ymddygiad troseddol. Fodd bynnag, roedd staff ISS yn cael eu gadael i barhau gyda phethau yn annibynnol o reolwr yr achos. Byddem yn disgwyl i reolwr yr achos gymryd arweiniad ar yr achos, gan atgyfnerthu elfen yr ISS fel rhan o'u gwaith a sicrhau bod y defnydd o ymyriadau yn ystod y cyfnod ISS yn gyson gyda'u hasesiad cyffredinol a'r cynllun gwaith ar gyfer yr achos.

1.6. Roedd rheolwyr achos wedi derbyn hyfforddiant ar gyfiawnder adferol, er roedd y nifer oedd wedi'i wneud o fewn rheoli achosion statudol wedi bod yn isel hyd yn hyn. Roedd cysylltu â dioddefwyr yn cael ei wneud yn systematig gan heddweision y YOS. Fodd bynnag, doedd dim proses i sicrhau bod dymuniadau dioddefwyr, er enghraifft llythyr o ymddiheuriad, yn cael eu hadlewyrchu bob tro mewn ymagweddau adferol ac ymyriadau yn seiliedig ar y dioddefwr. Weithiau roedd yn ymddangos fel bod y rhain yn cael eu hanwybyddu gan reolwyr achos. Fodd bynnag, pan fo dymuniadau dioddefwyr yn cael eu bodloni, roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol arnynt.

***Sylwadau gan ddioddefwyr***
*"Cefais lythyr oddi wrth y bachgen . . . yn ymddiheuro. Roedd wir wedi gwneud i mi deimlo'n well oherwydd mae'n neis gwybod bod pobl allan yno yn helpu'r bobl ifanc yma sy'n cael eu hunain i mewn i drafferth"*

*"Roedd y llythyr o ymddiheuriad derbyniom oddi wrth y person a wnaeth ddwyn yn wir fuddiol. Rydym wedi ei roi ar y wal i'r staff ei ddarllen . . . "*

1.7. Roedd gwaith mewn achosion yn y ddalfa yn dda ar y cyfan. Roedd yn amlwg bod yna ffocws ar yr achosion mwy cymhleth hyn sy'n aml â phroffil uwch. Roedd ansawdd y cynllunio mewn sefydliadau gwarchodol yn well na'r hyn rydym yn ei weld yn aml – roedd mwyafrif y cynlluniau'n cynnwys gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol ac ymateb i'r asesiad sy'n cael ei wneud gan y YOS. Mewn rhai achosion, roedd y YOS yn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus yn ôl i addysg neu hyfforddiant. Mewn un esiampl dda, fe weithiodd y YOS gyda Gyrfa Cymru i sicrhau y gallai person ifanc ddychwelyd i ddarparwr ei hyfforddiant seiliedig ar waith ar ôl cyfnod byr yn ddalfa. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion nid oedd rheolwyr achos yn gallu sicrhau trosglwyddiad mor llyfn.

***Dyfalbarhad ymgymryd ag asesiad yn y ddalfa***
*Cafodd Joe ei gadw yn y ddalfa oherwydd difrifoldeb ei drosedd. Ymwelodd y rheolwr achos ag ef er mwyn cwblhau asesiad. Nid oedd yr amser a oedd ar gael yn ddigonol. Felly fe drefnodd y rheolwr achos ail ymweliad brys a dychwelyd i'r sefydliad gwarchodaeth i gwblhau'r gwaith. Roedd hyn yn sicrhau bod yr asesiad yn gynhwysfawr a bod y PSR a ddarparwyd i'r llys dedfrydu'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.*

1.8. Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSRs) yw'r prif fodd o ddarparu cyngor i'r llys dedfrydu. Roedd dau draean yn ddigon da. Roedd angen i rai ohonynt fod yn gliriach am freuder, a pheidio â chyfyngu hwn i'r ystyriaeth o'r posibilrwydd o hunan-niwed. Roedd angen prosesau goruchwylio mwy cadarn a chyson i sicrhau bod y PSRs yn ddigon. Roeddem yn falch o ddarganfod bod PSRs yn aml yn fwy cryno nag sydd weithiau'n digwydd. Mewn rhai roedd un paragraff defnyddiol yn crynhoi asesiad o'r rhesymau pam y cyflawnwyd y drosedd. Gyda'i gilydd roedd y rhain yn helpu sicrhau bod y wybodaeth allweddol ar gael ar ffurf glir a pharod i'r llys dedfrydu.

1.9. Nid oedd digon o bwysigrwydd yn cael ei osod ar asesu a chynllunio. Tra roedd asesiad cychwynnol yn cael ei gwblhau yn y mwyafrif o achosion, roedd y rhan fwyaf yn annigonol. Roedd tystiolaeth yn aml yn gyfyng iawn, ac nid oedd yn ddigonol i gyfiawnhau'r casgliadau y daethpwyd atynt, gan olygu nad oedd y ffactorau allweddol a oedd yn dylanwadu ar aildroseddu wedi cael eu hadnabod yn gywir bob tro. Anaml oedd asesiadau'n gwneud defnydd o gyfraniadau posib iechyd, camddefnyddio sylweddau, addysg, yr heddlu a gweithwyr eraill er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gadarn ac yn gynhwysfawr. Roedd defnydd annigonol yn cael ei wneud o wybodaeth oedd eisoes ar gael mewn asesiadau neu gofnodion eraill.

1.10. Roedd gan y YOS weithiwr camddefnyddio sylweddau, wedi'i gyflogi gan wasanaeth B@1 Barnardo's ac wedi'i leoli yn y YOS, yn gweithio ar achosion y'u cyfeiriwyd gan reolwyr achos. Ar adeg yr arolygiad roedd pum phlentyn a pherson ifanc ar ei restr aros. Tra roedd cynllun wrth gefn defnyddiol i fynd i'r afael â mewnlif o gyfeiriadau; nid oedd wedi cael ei roi ar waith ar adeg yr arolygiad, a oedd yn gadael plant a phobl ifanc gydag anghenion heb eu diwallu.

1.11. Roedd nyrs clinigol arbenigol yn y YOS, yn gweithio gyda'r holl blant a phobl ifanc gydag anghenion emosiynol neu iechyd meddwl yn dilyn cyfeiriad gan reolwyr achos. Roedd y nyrsys yn rhan o'r tîm Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gyda mynediad at nodiadau CAMHS a gweithwyr proffesiynol eraill CAMHS ble fo angen. Roedd yn gadarnhaol ei fod yn gallu gwneud cyfeiriadau at CAMHS yn uniongyrchol, gan osgoi gorfod aros ar restr aros.

1.12. Ar ôl i'r rheolwyr achos wneud cyfeiriadau i'r nyrs clinigol arbenigol a'r gweithiwr camddefnyddio sylweddau cawsant gefnogaeth dda ganddynt. Roedd tystiolaeth o drafodaethau gyda nhw ynglŷn â'r math o ymyrraeth oedd ei angen. Roedd gwybodaeth yn cael ei rannu'n rheolaidd ynghylch sut gallai ymddygiad plentyn neu berson ifanc effeithio ar eu hymddygiad. Roedd y nyrs clinigol arbenigol yn gallu cyflwyno ystod o ymyriadau gallai gyfrannu at leihau ymddygiad troseddol.

1.13. Fodd bynnag, nid oedd y gweithwyr iechyd arbenigol yn cymryd rhan mewn achos nes i'r asesiad cychwynnol gael ei gwblhau. O ganlyniad roedd plant a phobl ifanc yn ddibynnol ar arbenigedd eu rheolwr achos i adnabod eu hanghenion iechyd. Roedd y rheolwyr achos

wedi derbyn hyfforddiant annigonol i adnabod pryderon emosiynol ac iechyd meddwl ac nid oedd eu hasesiad o anghenion iechyd yn ddigon da.

1.14. Roedd diffyg pwyslais ar leferydd, iaith a chyfathrebu. Ni ddigwyddodd unrhyw sgrinio ac roedd y rheolwyr achos wedi derbyn hyfforddiant annigonol i adnabod y materion. Ble roedd achosion wedi'u hadnabod, roedd dryswch ymhlith staff o ran pa gamau i'w cymryd. Gallai hyn olygu os oedd cyswllt gydag ymddygiad troseddol y gallai gael ei golli. Gallai hefyd effeithio ar allu plant a phobl ifanc i ddeall a chymryd rhan mewn gwaith i fynd i'w afael â'u hymddygiad troseddol.

1.15. Nid oedd asesiadau ETE (Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth) yn cael eu cefnogi'n ddigon da gan wybodaeth ychwanegol. Er enghraifft, roedd cofnod gwael o lefelau llythrennedd a rhifedd, arddulliau dysgu neu unrhyw anghenion dysgu ychwanegol roedd gan y bobl ifanc. Yn gyffredinol, nid oedd y rheolwyr achos yn talu sylw digonol i adnabod rhwystrau addysgol y plant a phobl ifanc roedden nhw'n eu goruchwylio. Ble roedd plant a phobl ifanc wedi'u cofnodi fel cael datganiadau o angen addysgol, nid oedd y manylion am y rhain ar gael. O ganlyniad, nid oedd y YOS yn gallu bod yn siŵr bod holl anghenion y plant a phobl ifanc hyn yn cael eu bodloni.

1.16. Mae angen i reolwyr achos gymryd ymagwedd fwy archwiliadol wrth ymgymryd ag asesiad, er enghraifft ceisio defnyddio ffynonellau eraill i wirio beth sydd wedi cael ei ddweud wrthynt gan y plentyn neu berson ifanc neu'u rhiant/gofalwr, yn hytrach na'i derbyn (e.e. gwirio presenoldeb addysg neu gofnodion cyrhaeddiad). Roedd angen iddynt adnabod gwerth asesiad wrth gynllunio a chyflwyno ymyriadau.

1.17. Roedd adolygiadau'n dioddef o broblemau tebyg i asesiadau cychwynnol. Ar ben hyn, mewn chwarter o achosion heb adolygiad digonol roedd hyn oherwydd doedd dim tystiolaeth bod un wedi cael ei wneud fel sy'n ofynnol. Roedd nifer o'r rhai oedd wedi'u recordio yn bennaf yn gopi o'r asesiad blaenorol gyda diweddariad annigonol, os o gwbl ar adegau.

1.18. Roedd gan lai na hanner yr achosion cynllunio digon da yn ei le am waith i leihau aildroseddu. Mewn rhai doedd dim cynllun wedi cael ei greu. Y maes mwyaf cyffredin lle'r oedd angen gwella oedd bod cynlluniau yn aneglur. Ym mwyafrif yr achosion nid oeddent yn effeithiol fel modd o gyfathrebu'n glir bwriadu manwl y rheolwyr achos, naill ai o'r plentyn neu berson ifanc neu i unrhyw un arall all fod angen bod yn ymwybodol o'r cynllun. Nid oedd cynlluniau'n cael eu trafod yn rheolaidd gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr wrth iddynt gael eu datblygu, er mwyn sicrhau eu bod yn eu deall a bod yr amcanion yn ystyrlon, a'u bod yn adlewyrchu'n briodol barn y plentyn neu berson ifanc ar le roedd angen iddyn nhw wneud newidiadau yn eu hymddygiad.

1.19. Mewn achosion gorchmynion cyfeirio, roedd adroddiadau i'r panel cymunedol yn aml yn gyfyngedig. Nid oedd llais y dioddefwr yn cael ei glywed mewn paneli cychwynnol, naill ai trwy eu mynychiad neu trwy awdur yr adroddiad neu gynrychiolwyr eraill yn siarad ar eu rhan. Darparwyd cyfarwyddyd annigonol i aelodau'r panel ynglŷn â'r ystod o ymyriadau oedd ar gael ym mhob achos. Dywedodd aelodau y siaradom â hwy eu bod erioed wedi gweld dioddefwr yn y panel, nid oedd yr amcanion y cytundeb y cytunwyd arno yn ystyrlon i blentyn neu berson ifanc, ac nid oeddent yn rheolaidd yn derbyn copi o'r cytundeb roeddent wedi'i lofnodi. Yn gyffredinol, roeddem yn ystyried bod paneli yn rhy parod i dderbyn diffyg mynychiad dioddefwyr ac ansawdd gwael yr adroddiadau y derbynion nhw. Roedd angen iddynt ofyn mwy o'r YOS er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion sy'n berthnasol i orchmynion cyfeirio yn cael eu bodloni.

1.20. Nid oedd digon o sylw'n cael ei dalu i sicrhau bod cynlluniau o ansawdd da wedi'u targedu yn eu lle i wella canlyniadau addysgol. Nid oedd gan blant a phobl ifanc gynlluniau dysgu unigol gellid eu rhannu ag asiantaethau eraill, megis Unedau Cyfeirio Disgyblion. Er bod anghenion dysgu ychwanegol gan nifer, nid oedd trefniadau i ddarparu cefnogaeth dysgu wedi cael eu hadnabod yn glir.

1.21. Roeddem yn arbennig o bryderus bod ein sylwadau i reolwyr achos ar ansawdd yr asesu a chynlluniau o bryd i'w gilydd yn eu synnu. Y dynodiad oedd bod dim disgwyl iddynt gyflwyno gwaith i'r safonau disgwyliedig bob tro, a'n bod wedi dod i arfer gweld yn fwy aml. Fodd bynnag, roeddem yn falch bod rheolwyr achos wedi ymrwymo â ni'n gadarnhaol ac roedd ychydig o dystiolaeth wrth i'r arolygiad fynd yn ei blaen bod ein sylwadau wedi cael eu deall a'u hymateb iddynt.

1.22. Nid oedd rheolwyr achos yn derbyn hyfforddiant digonol i'w helpu i wella canlyniadau ETE i blant a phobl ifanc. Mewn nifer o achosion, nid oeddent bob tro'n ymwybodol o'r ymyriadau ETE oedd ar gael.


1.23. Nid oedd ymagwedd systematig a chyson gyda chofnodi Safbwynt y Plentyn ar y system rheoli achos. Tra darparwyd esiamplau o gyfarwyddiadau a oedd wedi cael eu rhoi ynglŷn â'r cofnodi, roedd yn glir bod y rhain ddim yn cael eu dilyn yn gyson. Roedd angen i reolwyr achos, staff gwybodaeth a rheolwyr weithio gyda'i gilydd i gytuno a sicrhau eu bod yn cadw at safonau cofnodi oedd yn gweithio'n dda i bawb. Fel un esiampl, roedd rheolwyr achos a rheolaeth ganol yn credu bod gweithwyr iechyd yn cofnodi'u gwaith mewn un rhan o'r system; ond roedd y gweithiwr camddefnyddio sylweddau mewn gwirionedd yn cofnodi'u rhyngweithiadau rhywle arall. Gallai hyn arwain at golli gwybodaeth bwysig oherwydd nid oedd rheolwyr achos yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol am ymyriadau iechyd.

**Crynodeb**

*Yn gyffredinol roedd gwaith i leihau aildroseddu'n wael.* Nid oedd blaenoriaeth ddigonol yn cael ei roi i waith i leihau aildroseddu. Dylid gwneud mwy o ddefnydd o bartneriaid i fynd i'r afael ag anghenion yn ymwneud â lles er mwyn i'r YOS allu canolbwyntio'u sgiliau'n effeithiol ar leihau aildroseddu. Mae ansawdd cyffredinol y gwaith angen gwella'n gyflym ac yn sylweddol gyda staff yn cael eu dwyn i gyfrif yn gyson ac yn effeithiol yn unol â hyn. Fe welsom rhai gwaith da o fewn y tîm Goruchwylio ac Arolygu Dwys; fodd bynnag roedd hwn yn cael ei wneud yn annibynnol o reolwr yr achos. Nid oedd tîm rheoli'r YOS yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Roedd hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r safon wael yn gyffredinol.

## Crynodeb o'r Data

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol y'u haseswyd yn ystod arolygu'r achosion. [O.N. Arolygwyd 32 achos. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd cyfanswm yr atebion yn hafal i hwn, oherwydd mae'n bosib nad oedd pob cwestiwn yn berthnasol i bob achos]



# Thema 2: Amddiffyn y cyhoedd

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae gan ddioddefwyr, a dioddefwyr posib, troseddau yr hawl i ddisgwyl y bydd pob cam rhesymol yn cael eu cymryd i reoli'r risg o niwed a berir gan blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Rydym yn disgwyl gweld asesiadau a chynllunio o ansawdd da gydag ymyriadau priodol yn cael eu defnyddio, arweiniad positif, rheolaeth a phartneriaethau effeithiol sy'n lleihau'r risg o niwed i eraill.

### Sgôr asesiad yr achos

O fewn asesiad yr achos, yn gyffredinol roedd 51% o'r gwaith i amddiffyn y cyhoedd yn cael ei wneud yn ddigon da.

### Canfyddiadau Allweddol

1. Asesiadau yn well na'r rhai ar gyfer themâu eraill yr arolygiad, ond mae dal lle i wella.
2. Yn gyffredinol, roedd y gwaith yn ddigon da mewn traean o achosion yn unig.
3. Angen rhoi mwy o sylw i ddioddefwyr.
4. Angen gwella'n sylweddol cynllunio'r gwaith i reoli'r risg o niwed i eraill.
5. Adolygiad annigonol o asesiadau a chynlluniau gwaith i reoli'r risg o niwed.
6. Nid oedd y panel rheoli risg yn effeithiol ac roedd staff wedi drysu am ei weithrediad.
7. Nid oedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn sicrhau bod y gwaith o ansawdd da.

### Esboniad o'r canfyddiadau

2.1. Roeddem yn falch bod staff yn deall yr egwyddorion o waith yn ymwneud â risg o niwed, ond yn siomedig eu bod nhw ddim yn defnyddio'r rhain yn ddigonol yn eu gwaith yn amlach.

2.2. Yn rhy aml nid oedd y gwaith a wnaethpwyd i reoli'r risg o niwed i eraill yn cyd-fynd ag anghenion yr achos, hyd oed pan roedd darnau o waith wedi cael eu cynllunio. Roedd ymyriadau angenrheidiol yn cael eu defnyddio mewn traean o achosion perthnasol yn unig. Yn gyffredinol roedd y rheolwyr achos yn ddigon gweithredol wrth reoli'r risg o niwed i eraill, trwy gyflawni gwaith o ansawdd da a thrwy ymateb yn briodol i newidiadau yn yr amgylchiadau, mewn traean o achosion perthnasol yn unig.

2.3. Roedd yr asesiad o'r risg a berir i eraill yn well nag agweddau eraill o'r asesiad, ond roedd dros draean yn dal i fod yn annigonol. Roedd angen talu mwy o sylw i ddioddefwyr hysbys ac ymddygiad perthnasol cynharach.

2.4. Ar ben hynny, roedd ansawdd y gwaith yn gyffredinol yn wael. Nid oedd dau draean o'r asesiadau wedi cael eu hadolygu fel sy'n ofynnol. Roedd nifer o adolygiadau gan bennaf yn gopi o asesiad blaenorol gyda diweddariad annigonol, ac roedd rhai heb gael eu gwneud o gwbl. Mae adolygiadau rheolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn ddigon cyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau, gan gynnwys unrhyw welliannau neu waethygiad mewn ymddygiad. Heb asesiad cyfredol mae'n anodd sicrhau bod cynlluniau i reoli risg o niwed yn briodol.

2.5. Roedd cynllunio am waith i reoli'r risg o niwed i eraill yn annigonol mewn dau draean o achosion. Roedd nifer o achosion heb gynllun rheoli risg, ble roedd yn glir bod angen un. Ble roedd cynllunio wedi digwydd, roedd angen rhoi mwy o sylw i fynd i'r afael â materion

dioddefwyr. Roedd angen i gynlluniau fod yn gliriach ac yn fwy penodol fel bod bwriadau'r awdur yn glir i unrhyw un a oedd angen eu defnyddio. Roedd hefyd angen i gynlluniau gynnwys cynlluniau wrth gefn addas.

2.6. Roedd angen rhoi mwy o sylw i gynllunio am waith i reoli risg o niwed mewn achosion gwarchodol. Dylai pob achos gwarchodol perthnasol gynnwys cynllun addas sy'n adnabod unrhyw waith i'w wneud yn y ddalfa er mwyn paratoi'r plentyn neu berson ifanc ar gyfer ei ryddhau, ynghyd â chynllun am waith yn y gymuned sy'n barod ar gyfer yr adeg pan fydd y plentyn neu berson ifanc yn cael ei ryddhau.

2.7. Roedd adolygiad annigonol o gynlluniau i reoli a lleihau risg o niwed i eraill. Weithiau nid oedd adolygiadau'n cael eu gwneud fel sy'n ofynnol, ond yn y mwyafrif o achosion nid oeddent o safon ddigonol, yn aml oherwydd nid oedd diffygion yn y cynllunio gwreiddiol wedi cael eu hadnabod. Roedd dryswch ynglŷn â chanlyniadau'r paneli rheoli risg yn cyfrannu at hyn. O ganlyniad, mae'n bosib na fod y cynlluniau yn addas ar gyfer amgylchiadau cyfredol.

2.8. Roedd sylw digonol yn cael ei roi i asesu a rheoli'r risg o niwed i ddioddefwyr hysbys mewn hanner yr achosion perthnasol yn unig. Mewn un neu ddau nid oedd y dioddefwr wedi cael ei adnabod yn glir gan y rheolwr achos. Fodd bynnag ni welsom unrhyw dystiolaeth o ddioddefwyr yn dod i niwed difrifol o ganlyniad uniongyrchol i'r diffyg gweithredu hwn.

2.9. Nid oedd yr oruchwyliaeth o waith risg o niwed gan reolwyr yn effeithiol mewn ychydig dros dri chwarter o achosion perthnasol. Mewn hanner o'r rhain nid oedd unrhyw dystiolaeth bod goruchwyliaeth yn digwydd, ac yn y mwyafrif roedd diffygion pwysig yn yr asesu neu gynllunio ac fe ddylai'r rhain wedi cael eu hadnabod wrth oruchwylio er mwyn mynd i'r afael â hwy, yn hytrach na'u cymeradwyo fel bod yn ddigon da. Cydnabuom fod y YOS wedi defnyddio'i systemau gwybodaeth ei hun i gefnogi goruchwyliaeth amserol, a bod y cyfleuster hwn wedi cael ei golli dros dro yn dilyn newid yn y system. Fodd bynnag, dylai reolwr fod wedi gweithredu'n gynt i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

2.10. Roedd panel rheoli risg yn bodoli, a dylai hwn bod wedi cyfrannu at oruchwyliaeth effeithiol a safon uchel o waith. Fodd bynnag, roedd y broses yma'n ddryslyd iawn – er enghraifft, roedd rhai staff yn credu y byddai gweithrediadau'n codi o'r panel yn disodli cynlluniau rheoli risg neu freuder, yn hytrach na golygu bod angen diweddaru'r cynlluniau. Ar adegau, roedd y prosesau gofynnol am gyfeiriad i'r panel rheoli risg yn cael eu hanwybyddu, gyda dim rheswm yn cael ei roi am hyn, er bod pob rheolwr achos yn deall y gofyniad i wneud hyn. Ble roedd gweithrediadau i wella asesiadau a chynlluniau wedi cael eu hadnabod, doedd dim proses i sicrhau bod staff yn mynd i'r afael â hwy'n amserol, cyn iddynt gael eu derbyn gan reolwr.

2.11. Roeddem yn falch bod y YOS wedi cymryd camau i wella gweithrediad y paneli rheoli risg, yn dilyn adborth a ddarparwyd yn dilyn yr wythnos gyntaf o waith maes yr arolygiad. Roedd y panel welsom yn ddiweddarach wedi'i drefnu'n dda, ac roedd y YOS wedi datblygu siart lif syml i gynorthwyo staff i ddeall sut i ddefnyddio'r paneli'n effeithiol.


2.12. Er nad oedd dim achosion Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn cael eu rheoli'n weithredol gan y YOS yn y gymuned, doedd dim hyfforddiant diweddar wedi bod ar gyfer rheolwyr achos chwaith er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn ymwybodol o'r prif ddyletswyddau i adnabod, datgan a chyfeirio achosion perthnasol, ac i integreiddio trefniadau MAPPA yn eu gwaith. Roedd rheolwyr yn cydnabod y buddion a ddaw gyda sesiwn hyfforddi o'r fath yma.

**Crynodeb**

*Yn gyffredinol roedd gwaith i amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr gwirioneddol neu ddioddefwyr posibl yn wael.* Tra bod yr asesiad yn well na mewn rhannau eraill o waith yr YOS, wedi hynny roedd ansawdd y gwaith yn gyffredinol yn wael. Yn rhy aml, nid oedd y gwaith a wnaethpwyd yn cyd-fynd ag anghenion yr achos, ac yn benodol roedd angen rhoi mwy o sylw i ddioddefwyr hysbys. Ychwanegwyd at yr anawsterau gyda'r gwaith hwn gyda dryswch am weithrediad panel rheoli risg yr YOS a goruchwylio annigonol gan reolwyr.

## Crynodeb o’r Data

Mae’r siart canlynol yn crynhoi data o rai o’r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod arolygu’r achosion. [O.N. Arolygwyd 32 achos. Fodd bynnag, mae’n bosib ni fydd cyfanswm yr atebion yn hafal i hwn, oherwydd mae’n bosib nad oedd pob cwestiwn yn berthnasol i bob achos]



# Thema 3: Amddiffyn plant a phobl ifanc

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Os yw breuder plant a phobl ifanc yn sgil canlyniadau eu hymddygiad hwy neu ymddygiad eraill, rydym yn disgwyl gweld eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel a bod eu breuder yn cael ei leihau. Dylid gwneud hyn trwy asesu a chynllunio da gyda'r defnyddio o ymyriadau priodol, arweiniad a rheolaeth gadarnhaol, a chyfraniad effeithiol at drefniadau amddiffyn plant aml-asiantaeth.

### Sgôr asesiad yr achos

O fewn asesiad yr achos, yn gyffredinol roedd 41% o'r gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau'u breuder yn cael ei wneud yn ddigon da.

### Canfyddiadau Allweddol

1. Yn gyffredinol roedd gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc ac i leihau'u breuder yn wael.
2. Rhai staff yn gweithio gan ddilyn dealltwriaeth o freuder nad oedd yn unol â disgwyliadau cyfredol.
3. Hanner yr asesiadau yn unig oedd yn ddigon da.
4. Angen gwelliannau sylweddol i'r cynllunio.
5. Nid oedd yr oruchwyliaeth gan reolwyr yn effeithiol wrth sicrhau ansawdd y gwaith.
6. Llawer o gyfathrebu rhwng y YOS a gweithwyr cymdeithasol mewn rhannu eraill o'r awdurdod lleol, er bod effeithlonrwydd gweithio ar y cyd yn gyfyngedig.
7. Nid oedd ansawdd y cyfeiriadau i Dîm Dyletswydd ac Asesu gwasanaethau plant yn ddigon da.

### Esboniad o'r canfyddiadau

3.1. Roedd breuder yn aml yn cael ei deall yn unol â dulliau amddiffyn a diogelu plant yn unig, neu'r tebygolrwydd o'r plentyn neu berson ifanc yn achosi hunan-niwed bwriadol i'w hunain. Rydym ni a'r YJB yn disgwyl gweld ymagwedd llawer ehangach at freuder. Ymhlith yr esiamplau y gwelsom ble dylid bod wedi ystyried breuder oedd colli ysgol pan roedd y plentyn neu berson ifanc yn gwneud pethau tra nad oeddent yno a oedd yn eu gwneud yn fwy bregus, effaith brodyr a chwiorydd hŷn a oedd yn troseddu, anawsterau mewn perthynas gyda rhiant pan mae ganddyn nhw broblemau iechyd, effaith problemau iechyd hysbys ar hunanhyder, a bod yn hawdd eu harwain neu'n agored i bwysau gan gyfoedion. Gallai pob un hefyd gael effaith ar ymddygiad troseddol.

3.2. Tra bod angen gwneud llawer mwy i sicrhau gwaith o ansawdd da i amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau'u breuder, roeddem yn falch o weld bod dim diffygion yn y gwaith wedi gadael unrhyw blentyn mewn trafferth.

3.3. Roedd y camau cywir yn cael eu cymryd mewn dim ond traean o achosion perthnasol i reoli a lleihau breuder y plentyn neu berson ifanc. Yn gyffredinol, nid oedd yr asesu a chynllunio'n ddigon cadarn i gynyddu'r tebygolrwydd o hyn yn digwydd mewn mwy o achosion.

3.4. Ble nad oedd ymyriadau a oedd yn ofynnol wedi cael eu cyflawni, neu ble nad oedd cyfeiriadau priodol wedi cael eu gwneud, roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y rheolwr achos wedi adnabod yr angen am hyn. Yn sgil hyn, nid oedd gwaith i fynd i'r afael â diogelu a lleihau breuder weithiau ddim yn derbyn y flaenoriaeth ofynnol.

3.5. Roeddem yn bryderus i weld bod cynllunio ffurfiol annigonol yn ei le i reoli a lleihau breuder y plentyn neu berson ifanc mewn llai na chwarter o achosion perthnasol yn y ddalfa ac yn y gymuned. Nid oedd cynllun wedi cael ei gwblhau mewn dau draean o'r achosion ble roedd un yn ofynnol; gan gynnwys achosion ble roedd y rheolwr achos ei hun wedi asesu lefel y breuder fel canolig neu uchel. Mewn hanner o'r achosion ble roedd cynllun yn ei le roedd angen rhoi mwy o sylw i gynllunio wrth gefn.

3.6. Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr i sicrhau ansawdd y gwaith i fynd i'r afael â diogelu a lleihau breuder yn effeithiol mewn llai nag un o bob pump o achosion perthnasol. Yn aml nid oedd diffygion yn yr asesu a chynllunio wedi cael eu hymdrin â chyn iddynt gael eu derbyn, ac mewn nifer o rai eraill roedd angen goruchwyliaeth ond nid oedd wedi cael ei ddarparu. Fel gyda gwaith risg o niwed, daethom i wybod bod y YOS wedi defnyddio systemau gwybodaeth yn flaenorol i helpu adnabod ble roedd angen goruchwyliaeth, a bod y rhain ddim eto ar gael yn y system newydd. Fodd bynnag, byddem wedi disgwyl gweld ymgais cadarn i geisio llenwi'r bwlch hwn. Ar adegau darganfuwyd bod ffeiliau sicrhau ansawdd a gwblhawyd gan reolwr oedd dal heb adnabod diffygion yn asesu a rheoli breuder, hyd yn oed pan roedd y rhain yn ôl pobl golwg wedi cael eu harchwilio. Roedd dryswch am weithrediad y panel rheoli risg hefyd yn berthnasol i'r gwaith hwn.

3.7. Hanner yr asesiadau o ddiogelu a breuder yn unig oedd yn ddigon da. Yn ogystal ag adnabod ehangder y ffactorau breuder posib, roedd angen i reolwyr achos gasglu'r rhain at ei gilydd i mewn i asesiad cynhwysfawr, a bod yn glir ar natur y breuder. Mewn rhai achosion doedd dim tystiolaeth bod asesiad breuder wedi cael ei gynnal.

3.8. Nid oedd y YOS a thimau gwasanaethau plant eraill yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd a allai hysbysu asesiadau. Nid oedd rheolwyr achos y YOS na gweithwyr cymdeithasol chwaith yn gwerthfawrogi i ba raddau y gallent hysbysu asesiadau pobl eraill. Er enghraifft, nid oedd mwyafrif y gweithwyr cymdeithasol y siaradom â hwy yn gwybod bod y YOS yn cwblhau asesiadau Asset a doedd dim syniad ganddynt o'r defnydd y gallent fod wedi gwneud o'r rhain i hysbysu asesiadau cychwynnol a chraidd.

3.9. Nid oedd cynlluniau dedfrydu na chynlluniau gofal plant chwaith yn adlewyrchu anghenion cyfannol plant a phobl ifanc. Roedd cynlluniau'n tueddu i gynnwys amcanion oedd yn ymwneud yn benodol â'u hadnabod fel rhan o'r gwasanaeth yn unig yn hytrach na chynnwys amcanion integredig am gyflawni canlyniadau cynaliadwy ar y cyd.

***Esiampl Achos – cynlluniau'n integreiddio gofal plant a materion yn ymwneud â throseddu***

*Fe welsom un esiampl arbennig o dda o gynlluniau rheoli breuder oedd yn integreiddio materion gofal plant yn llawn ochr yn ochr â materion yn ymwneud â throseddu. Roedd y rheolwr achos yn amlwg wedi cysylltu newidiadau mewn lleoliadau a threfniadau am gyswllt ag aelodau o'r teulu gyda gwaethygiadau posib yn y risg i eraill ac o freuder. Roedd yr arfer yma'n dangos y potensial am fwy o weithio integredig, a lefel dda o ddealltwriaeth gan y rheolwr achos o'r materion ehangach.*

3.10. Fe welsom esiamplau o ymgynghori helaeth ar achosion rhwng staff YOS a gweithwyr cymdeithasol mewn meysydd eraill o fewn yr awdurdod lleol. Yn gyffredinol, roedd presenoldeb gweithwyr cymdeithasol mewn paneli rheoli risg yn dda a hefyd presenoldeb staff YOS yn adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, cynadleddau a grwpiau craidd Amddiffyn Plant ynghyd â chyfarfodydd proffesiynol eraill.

3.11. Nid oedd cyfeiriadau'r YOS i'r Tîm Dyletswydd ac Asesu o ansawdd da, nid oeddent yn esbonio'n glir risgiau ac anghenion plant a phobl ifanc. Yn yr un modd, nid oedd gwasanaethau cymdeithasol eraill i blant yn dda yn rhannu canlyniadau asesiadau a chynlluniau gyda rheolwyr achos y YOS yn rheolaidd neu'n rhoi gwybod am benderfyniadau am gau achosion neu newid lleoliadau.

3.12. Weithiau roedd tensiynau rhwng y YOS a gweithwyr cymdeithasol mewn timau gwasanaethau plant eraill yn enwedig yn ymwneud â gwneud penderfyniadau allweddol, er enghraifft yn ymwneud ag a fyddai cyfeiriad yn cael ei derbyn. Roedd angen camau cynyddu cliriach er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

***Gwaith i ddiogelu merch rhag gamfanteisio'n rhywiol***
*Roedd Jodie'n ferch 14 mlwydd oed gydag anghenion cymhleth iawn, a oedd yn arddangos ymddygiad rhywioledig, yn rheolaidd yn mynd ar goll ac yn bygwth hunan-niweidio. Roedd yr YOS wedi asesu ei bod hi â risg uchel i gamfanteisio rhywiol, ac fe wnaethpwyd cyfeiriad priodol i Weithrediad Artemis, gweithrediad dan arweiniad yr heddlu i archwilio achosion o gamfanteisio plant yn rhywiol. Mynychodd swyddog o'r uned banel rheoli risg y YOS. Cytunwyd fel rhan o'r cynllun rheoli breuder y byddai'r swyddog yn archwilio mynediad Jodie i'r rhyngrwyd er mwyn sicrhau ei bod hi ddim mewn cysylltiad â chamdrinwyr posib. Roedd hon yn esiampl da o weithio ar y cyd i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc yn dilyn asesiad gan y YOS.*

3.13. Yn gyffredinol cyfyngedig oedd yr effeithiolrwydd o gydweithio rhwng y YOS a thimau gwasanaethau i blant. Ar y gorau roedd y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn wasanaeth gwasgarog ac ar y gwaethaf yn arwain at ddryswch a blychau mewn darpariaeth. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn nhimau Plant a Theuluoedd yn aml ddim yn ymwybodol o adnoddau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau ar gael i blant a phobl ifanc dan oruchwyliaeth y YOS.

3.14. Roedd polisi cyfredol awdurdod lleol yn atal y YOS rhag gwneud defnydd o'r Tîm Atal i gefnogi plant a theuluoedd nad oedd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae hyn yn helpu esbonio pam, mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, ein bod wedi dweud bod y YOS yn treulio gormod o amser yn mynd i'r afael â materion lles, gan olygu bod rheolwyr achos yn cael eu tynnu i ffwrdd o wneud gwaith effeithiol i leihau troseddu.

3.15. Roedd cyswllt da rhwng y prosiect unigolyn coll a'r YOS, er enghraifft gyda gweithiwr o'r prosiect yn mynychu panel rheoli risg y YOS. Fodd bynnag, nid oedd y gronfa ddata ar unigolion coll, Asesiad Risg Unigolyn Coll (MIRA), yn cael ei wirio a'i chraffu'n rheolaidd gan reolwyr achos.


3.16. Nid oedd staff cefnogol a gweinyddol y YOS wedi derbyn hyfforddiant ar y cyfraniad y byddai modd iddynt wneud at amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau'u breuder.

### Crynodeb

*Yn gyffredinol roedd gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau'u breuder yn wael.* Y rheswm yn aml oedd bod breuder yn cael ei ystyried yn unol ag amddiffyn plant a hunan-niwed bwriadol yn unig, gan anwybyddu ymddygiad peryglus arall megis defnydd o alcohol neu gyffuriau, gan gynnwys pan fod hyn yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol. Yn eironig, wrth feddwl am y flaenoriaeth a roddir i anghenion lles a nodir mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, nid oedd rheolwyr achos yn adnabod y ddealltwriaeth ehangach o freuder sy'n berthnasol trwy gydol y system cyfiawnder ieuenctid. Roedd angen rhoi sylw i weithio ar y cyd yn fwy effeithiol gyda gwasanaethau plant cymdeithasol Casnewydd, gan gynnwys sicrhau bod cyfeiriadau sy'n cael eu gwneud gan yr YOS o ansawdd da.

**Crynodeb o'r Data**

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol y'u haseswyd yn ystod arolygu'r achosion. [O.N. Arolygwyd 32 achos. Fodd bynnag, mae'n bosib ni fydd cyfanswm yr atebion yn hafal i hwn, oherwydd mae'n bosib nad oedd pob cwestiwn yn berthnasol i bob achos]



# Thema 4: Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni

**Yr hyn rydym yn disgwyl gweld**

Dylai plant a phobl ifanc gyflawni eu dedfrydau yn y modd y bwriadir gan y llys. Rydym yn disgwyl y bydd y YOT yn amlhau'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus trwy ymrwymo'n effeithiol â nhw a'u teuluoedd, ymateb i ffactorau amrywiaeth perthnasol gan gynnwys talu sylw i'w hiechyd a lles, a chymryd camau priodol os nad ydynt yn cydymffurfio.

**Sgôr asesiad yr achos**

O fewn asesiad yr achos, yn gyffredinol roedd 62% o'r gwaith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei wneud yn ddigon da.

**Canfyddiadau Allweddol**

1. Staff yn gyffredinol yn adnabod eu plant a phobl ifanc ac yn gyrru ymlaen yn dda â nhw.
2. Plant a phobl ifanc ddim yn chwarae rhan ddigonol wrth ddatblygu asesiadau a chynlluniau, a deall y newidiadau roedd angen iddynt eu gwneud yn eu bywydau.
3. Nid oedd y cynlluniau, gan gynnwys cytundebau gorchymyn cyfeiriadau, yn ystyrlon i blant a phobl ifanc.
4. Dim digon o sylw'n cael ei roi i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac unrhyw ffactorau amrywiaeth neu rhai eraill a allai fod yn anffafriol.
5. Nid oedd gan staff na rheolwyr ddealltwriaeth dda o ddiben y panel cydymffurfiaeth.
6. Dim digon yn cael ei wneud i annog plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb dros eu cydymffurfiaeth eu hunain.
7. Roedd yr ymateb cychwynnol i faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn briodol.
8. Gweithwyr iechyd yn gweithio'n galed i ymrwymo'n effeithiol gyda phlant a phobl ifanc, ond doedd dim sgrinio iechyd rheolaidd.

**Esboniad o'r canfyddiadau**

4.1. Yn gyffredinol roedd y staff yn adnabod y plant a phobl ifanc ac yn gyrru ymlaen yn dda â nhw. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gallu cymryd lle rheolaeth effeithiol ohonynt a'u rhieni/gofalwyr mewn gwaith go iawn i leihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd. Roedd angen rhoi mwy o sylw i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc cyfle digonol i gyfrannu'u barn ar eu rhesymau dros droseddu a bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu'n glir fel rhan o'r asesiad cychwynnol.

4.2. Y plentyn neu berson ifanc sy'n gorfod gwneud newidiadau i'w hymddygiad er mwyn iddynt hwy stopio troseddu a'u bod nhw'n llai tebygol o achosi niwed i eraill. Nid oedd rheolwyr achos yn eu cynnwys ddigon wrth benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer newid, gan eu helpu i ddeall pam fod angen newidiadau, a sicrhau eu bod yn gwybod yn union beth roedd angen gwneud er mwyn caniatáu iddynt ddigwydd. Dylai plant a phobl ifanc ddeall yn glir y cynllun y cytunwyd arno, a bod eu barn ar sut gellir cyflawni newid yn cael ei adlewyrchu yn sut mae'r gwaith yn cael ei gynllunio a'i wneud. Roedd angen gwelliannau sylweddol ym mhob un o'r rhain yn yr achos o gynllunio gwaith.

4.3. Roedd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn ddigonol wrth ddatblygu PSR mewn hanner yr achosion perthnasol yn unig, yn bennaf oherwydd bod y YOS heb sicrhau eu bod nhw'n deall y PSR cyn iddo gael ei defnyddio mewn llys.

4.4. Roedd bron i dri chwarter o'r dogfennau PSR yn rhoi sylw digonol i ffactorau amrywiaeth neu rwystrau i ymrwymo â'r ddedfryd. Fodd bynnag, hanner y cynlluniau perthnasol yn unig oedd yn rhoi sylw digonol i'r rhain. Yn aml nid oedd y cynlluniau'n mynd i'r afael ag effaith y ffactorau oedd eisoes wedi cael eu hadnabod.

***Sylw o berson ifanc yn dynodi pam fod angen cynllunio cliriach o bryd i'w gilydd er mwyn ymateb i ffactorau amrywiaeth***
*"Dydw i ddim yn cofio pethau'n dda . . . byddai'n dda pe gallem gwrdd ar yr un amser bob wythnos yn hytrach nag ar ddiwrnodau gwahanol . . . Rwy'n drysu oherwydd mae'n wahanol o hyd"*

4.5. Cytundeb rhwng y panel cymunedol, y plentyn neu berson ifanc, a'u rhieni/gofalwyr yw cytundebau gorchymyn cyfeiriad. Nid oedd plant a phobl ifanc yn derbyn copi o'r cytundeb roeddent wedi'i lofnodi'n awtomatig, sy'n annerbyniol. Nid oedd y cytundebau chwaith yn cael eu hysgrifennu mewn modd a oedd yn galluogi i'r plentyn neu berson ifanc wneud penderfyniad gwirioneddol ddeallus am yr hyn roeddent yn ei lofnodi.

***Cyfarfod a chyfarch cyn paneli gorchymyn cyfeiriad***
*Roedd y YOS yn defnyddio ymagwedd cyfarfod a chyfarch cyn paneli gorchymyn cyfeiriad ble fyddai gwirfoddolwr yn croesawu'r plentyn neu berson ifanc i'r adeilad a'u gwneud yn gartrefol cyn mynd â nhw i mewn i'r panel. Roedden nhw hefyd yn sicrhau eu bod nhw'n deall yr adroddiad a oedd wedi cael ei ysgrifennu. Roedd hyn yn effeithiol ar gyfer gwella'u hymglymiad yn y trafodaethau yn y panel.*

4.6. Nid oeddem yn ystyried bod digon o sylw wedi cael ei roi i ganlyniadau iechyd a lles, yn arbennig oherwydd y gallent weithredu fel rhwystr i ganlyniad llwyddiannus i'r ddedfryd, mewn traean o achosion perthnasol. Er enghraifft, roedd y systemau i asesu a chynllunio ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn wael. Roedd mynediad at wasanaethau megis lleferydd ac iaith, seicoleg addysgol a chefnogaeth ymddygiad yn rhy gyfyngedig. Nid oedd plant a phobl ifanc gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael bob tro'n cael y gefnogaeth roedd angen arnynt.

4.7. Doedd dim sgrinio iechyd corfforol yn digwydd ac nid oedd y rheolwyr achos wedi derbyn hyfforddiant yn ymwneud ag iechyd corfforol. Yn gyffredinol roedd yr asesu o iechyd corfforol yn annigonol. Yn 2012 cynigodd gwasanaeth nyrs yr ysgol i gynnal sgrinio iechyd corfforol ac imiwneiddio yn y YOS. Nid chafodd hyn ei roi ar waith. Mae'n hanfodol bod sgrinio iechyd corfforol yn cael ei gynnig, oherwydd nid yw'r plant a phobl ifanc hyn ddim bob tro'n cael mynediad at wasanaethau prif ffrwd. Gall hyn hefyd gyfrannu at ansawdd asesiadau.

4.8. Doedd dim darpariaeth iechyd rhywiol ffurfiol ar gyfer plant a phobl ifanc oedd yn mynychu'r YOS. Os oedd angen yn cael ei adnabod, byddai'r plentyn neu berson ifanc yn cael ei gefnogi i gael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol cyffredinol. Fodd bynnag, nid oedd y YOS yn cynnig sgrinio iechyd rhywiol rheolaidd.

***Esiampl Achos – Helpu stopio defnyddio cerdyn arian i gael arian am gyffuriau***

*Defnyddiodd Jo ei gerdyn arian i dynnu arian i brynu cyffuriau. Roedd arno eisiau stopio gwneud hynny. Trafododd y gweithiwr camddefnyddio sylweddau y rhesymau pam roedd Jo eisiau stopio cymryd cyffuriau a thynnu lluniau i ddarlunio'r rhesymau hyn. Yna fe gynhyrchodd nodyn maint cerdyn credyd wedi'i lamineiddio gyda'r lluniau i Jo a'i gadw ar ben ei gerdyn arian yn ei waled. Dywedodd Jo bod hyn wedi'i helpu i stopio a meddwl pan roedd e wrth y peiriant arian ac yn y pen draw, lleihau'i ddefnydd o gyffuriau.*

4.9. Nid oedd plant a phobl ifanc yn cael eu sgrinio'n rheolaidd gan weithiwr camddefnyddio sylweddau'r YOS, oherwydd roedd e'n gweithio'n unig gyda'r rheini'r oedd y rheolwr achos wedi adnabod cyswllt ag ymddygiad troseddol ac wedi gwneud cyfeiriad ato.

4.10. Roeddem yn cydnabod bod y defnydd cyson o ymweliadau cartref weithiau'n briodol, fodd bynnag roedd gormod o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt. Weithiau roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod y plentyn neu berson ifanc yn cymryd ychydig o gyfrifoldeb, er enghraifft trwy gytuno i gwrdd mewn lleoliad cymunedol yn hytrach na dibynnu ar reolwr achos i ymweld â'u cartref. Yn gyffredinol fe welsom fod rheolwyr achos weithiau'n caniatáu gormod o hyblygrwydd a ddim yn dwyn plant a phobl ifanc i gyfrif ddigon dros eu cydymffurfiaeth. Weithiau roedd angen gwneud mwy i gymell y plentyn neu berson ifanc ac i oresgyn rhwystrau i gydymffurfio. Fodd bynnag, pan nad oedd plentyn neu berson ifanc yn cydymffurfio â gofynion y ddedfryd roedd yr ymateb cychwynnol yn ddigonol mewn ychydig dros ddau draen o achosion perthnasol.

4.11. Roedd yr YOS yn gweithredu panel cydymffurfio. Ei fwriad oedd sicrhau bod y rhesymau dros beidio â chydymffurfio yn cael eu deall, bod staff yn mynd i'r afael â rhwystrau i gydymffurfiaeth a bod camau y gellir eu hamddiffyn yn cael eu rhoi yn eu lle. Roedd hwn yn syniad da a oedd yn gweithredu'n dda mewn sawl YOT. Fodd bynnag roedd yn glir o asesiadau achos ac o oruchwylio nad oedd y panel yn effeithiol na dealltwriaeth dda o'i diben. Roedd nifer o esiamplau, er enghraifft, ble roedd y plentyn neu berson ifanc heb fynychu'u panel cydymffurfio, heb ddarparu rheswm, ond doedd dim cynllun gweithredu cadarn yn dilyn hyn. Mewn achosion fel hyn byddem fel arfer yn disgwyl gweld naill ai penderfyniad i symud i stopio'r trafodion, efallai tra bod ymdrechion pellach yn cael eu gwneud i ddeall y rheswm dros beidio â mynychu, neu ar y lleiaf cynllun clir i geisio ymrwymo'r plentyn neu berson ifanc eto cyn cyrraedd penderfyniad terfynol ar y toriad. Mewn amgylchiadau fel hyn mae'n anodd deall sut bod *"gobeithio y byddant yn mynychu apwyntiad arall"* yn ymateb digonol, fodd bynnag fe welwyd ymateb tebyg i hwn mewn sawl tro. Gyda gorchmynion cyfeirio, yn y pen draw cyfrifoldeb y panel yw penderfyniadau ynghylch peidio â chydymffurfio; fodd bynnag yn ôl aelodau'r panel, anaml roedd pryderon am gydymffurfiaeth yn dod atynt.

4.12. Mewn ychydig o achosion, rhoddodd bobl ifanc adborth am y ddarpariaeth ETE fynychon nhw ac roedd hyn wedi arwain at newid o leoliad. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid oedd y YOS yn talu sylw digonol i wrando ar farn plant a phobl ifanc am ansawdd neu addasrwydd yr ETE derbynion nhw. Roedd y cyfraddau cwblhau ar gyfer plant a phobl ifanc yn mynychu mathau amrywiol o ddarpariaeth yn isel. Yn aml nid oedd plant a phobl ifanc hŷn a oedd yn mynychu hyfforddiant yn seiliedig ar waith ddim yn barod ar gyfer y cam hwn ac nid oeddent yn derbyn y gefnogaeth roedd ei angen arnynt i'w helpu i gwblhau'r cam hwn yn llwyddiannus.

***Cefnogaeth i fynychu lleoliad ETE a newid ymddygiad***
*Derbyniodd Lee ddedfryd newydd yn dilyn toriad o'r un flaenorol. Roedd hon yn cynnwys gofyniad addysg. Cymerodd y rheolwr achos ymagwedd gadarnhaol at ei waith gyda Lee ac yn sgil hyn roedd ei gydymffurfiaeth â'r ddedfryd newydd yn ardderchog. Roedd y gwaith yn cynnwys darparu trafnidiaeth i'r ysgol i helpu datblygu trefn gadarnhaol; gan fynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad trafferthus yn ETE fel rhan o sesiynau goruchwylio YOS; a sicrhau bod y sesiynau YOS yn addas ar gyfer rhychwant sylw isel Lee. Roedd ymyriadau'n ymdrin yn benodol â'r rhesymau pam fod Lee'n troseddu. Darparwyd cefnogaeth i fam Lee i'w chynorthwyo i'w gymell i gydymffurfio â'i ddedfryd. Roedd Lee wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w ymddygiad ac nid oedd wedi aildroseddu hyd yma.*

4.13. Oherwydd bod dim gofyn fel arfer ar blant a phobl ifanc i ymgymryd â thriniaeth am faterion iechyd, mae ymrwymiad effeithiol yn hanfodol i lwyddiant yr ymyrraeth. Roedd gweithwyr

iechyd yn gweithio'n dda gyda nhw ac yn cynnig hyblygrwydd da er mwyn cynnal hyn. Fe welsom ymdrechion creadigol gan y ddau. Roedd tystiolaeth y byddent yn gweld plant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o amgylchiadau. Er enghraifft, byddai'r gweithiwr camddefnyddio sylweddau yn trafod camddefnydd y person ifanc o sylweddol tra'n cicio pêl droed. Byddai'r nyrs clinigol arbenigol yn cwrdd â phlentyn neu berson ifanc yng nghanol y dref os oeddent yn bryderus am fynychu'r YOS. Bwriad y rhain oedd helpu plant a phobl ifanc i deimlo'n fwy cyfforddus a gwella ymrwymiad.


4.14. Nid oedd staff wedi derbyn hyfforddiant digonol i asesu anawsterau lleferydd ac iaith. Gan hynny nid oeddent yn gallu bod yn siŵr bod y dulliau a ddefnyddir i gyfathrebu â phobl ifanc yn bodloni'u hanghenion bob tro. Roedd yn gadarnhaol bod rhai staff wedi derbyn hyfforddiant i weithio gyda'r sawl gydag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig; ac er bod yr hyfforddiant heb fod yn ddigonol, roedd rhai staff hefyd yn ymwybodol o'r materion y'u hwynebir gan y sawl gyda dyslecsia.

**Crynodeb**

*Yn gyffredinol roedd gwaith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei wneud yn anfoddhaol.* Roedd staff yn adnabod y plant a'r bobl ifanc yn dda; fodd bynnag nid oeddent yn eu cynnwys yn ddigonol wrth asesu a chynllunio ar gyfer y newidiadau roedd angen iddynt wneud yn eu bywydau. Gellir gwneud mwy i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros ufuddhau i'r ddedfryd. Nid oedd panel ufuddhau'r YOS yn effeithiol. Fodd bynnag, pan nad oedd plant a phobl ifanc yn ufuddhau i'w dedfryd roedd yr ymateb cychwynnol yn aml yn briodol.

**Crynodeb o'r Data**

Mae'r siart canlynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod arolygu'r achosion. [O.N. Arolygwyd 32 achos. Fodd bynnag, mae'n bosib ni fydd cyfanswm yr atebion yn hafal i hwn, oherwydd mae'n bosib nad oedd pob cwestiwn yn berthnasol i bob achos]



# Thema 5: Llywodraethu a phartneriaethau

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**

Mae trefniadau llywodraethu, partneriaethau a rheoli effeithiol yn eu lle. Mae'r rhain yn galluogi i'r YOT gyflawni amcanion cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol a rhai cysylltiedig, ac i ddarparu a chynnal gwasanaethau o ansawdd da.

**Canfyddiadau Allweddol**

1. Nid oedd y trefniadau llywodraethu ac arwain wedi sicrhau bod y gwaith i leihau troseddu yn effeithiol ac o ansawdd da.
2. Sylw annigonol yn cael ei roi i ansawdd y gwaith gan y Bwrdd Rheoli a'r rheolwyr.
3. Roedd gan gyfiawnder ieuenctid broffil uchel mewn cynlluniau partneriaeth lleol allweddol.
4. Nid oedd y data a ddefnyddir gan y Bwrdd Rheoli yn ddigonol i'w galluogi i dwyn y YOS i gyfrif dros berfformiad cyfredol.
5. Gwelliannau sylweddol yn nifer y plant a phobl ifanc yn dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf.
6. Nid oedd tîm rheoli'r YOS yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd.
7. Nid oedd gwaith heddweision yr YOS yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u sgiliau.
8. Nid oedd cysylltiadau strwythurol rhwng yr YOS a Gwasanaethau Plant Casnewydd yn effeithiol yn sicrhau gweithio'n dda ar y cyd.
9. Canlyniadau addysgol cadarnhaol annigonol ar gyfer y plant a phobl ifanc a oedd yn hysbys i'r YOS.
10. Sylw annigonol i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael.
11. Ychydig o bwyslais yn unig ar fonitro canlyniadau er mwyn gwella gwasanaethau.
12. Nid oedd defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu holi'n rheolaidd am eu barn, er mwyn gwella gwasanaethau.

**Esboniad o'r canfyddiadau**

### 5.1. Arweinyddiaeth a llywodraethu – cyflawni amcanion cyfiawnder troseddol a rhai cysylltiedig

5.1.1. Nid oedd llywodraethu ac arweinyddiaeth o fewn y Bwrdd Rheoli ac o fewn y YOS wedi bod yn effeithiol yn lleihau aildroseddu yn sylweddol, na chwaith yn sicrhau bod yr arferion craidd yn y YOS yn dderbyniol. Roedd y cyfraddau aildroseddu'n parhau'n uchel o'i gymharu â nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr.

5.1.2. Roeddem yn falch o weld bod cyfiawnder ieuenctid wedi'i diffinio'n glir yng Nghynllun Gwella Casnewydd a'r Cynllun Integredig (partneriaethau) Sengl – yn wir mae gweld y term wedi'i diffinio mor glir yn anarferol. Roedd angen gwneud mwy o waith i ddatblygu amcanion mesuradwy ystyrlon oedd yn cefnogi rheolaeth effeithiol o berfformiad ac atebolrwydd ar lefel weithredol.

5.1.3. Roedd cynrychiolaeth eang ar Fwrdd Rheoli'r YOS a chyfradd fynychu dda, er weithiau dylai'r cynrychiolydd a enwir mynychu'n fwy cyson, yn hytrach nag anfon eilydd. Roedd y bwrdd yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr Cyngor Dinas

Casnewydd. Roedd hwn yn benderfyniad cadarnhaol a oedd yn rhoi arwydd clir am bwysigrwydd y gwaith yma.

5.1.4. Roedd aelodau'n adrodd bod cyfarfodydd y bwrdd yn awyrgylch diogel ble mae her gadarnhaol yn cael ei chroesawu, a bod yna berthynas agored ac iachus rhyngddyn nhw. Ategwyd hyn yng nghofnodion cyfarfodydd y bwrdd.

5.1.5. Roedd y bwrdd yn canolbwyntio ar fonitro cyflawni canlyniadau, trwy'r cerdyn sgorio chwarterol. Fodd bynnag, roedd gormod o ddata ac nid oedd aelodau'r bwrdd yn deall llawer ohono, felly nid oeddent yn gallu'i ddefnyddio'n effeithiol i ddwyn y YOS i gyfrif dros ei berfformiad. Roedd angen mwy o ffocws ar gynhyrchu gwybodaeth a oedd yn helpu esbonio perfformiad a thrwy hynny'n fwy defnyddiol wrth hysbysu ymateb y Bwrdd ar faterion perfformiad craidd (e.e. pam nad yw'r perfformiad fel yr hoffem, neu beth oedd wedi gwneud y gwahaniaeth?).

5.1.6. Doedd dim sylw rheolaidd gan y bwrdd i ansawdd ymarfer. Roedd hyn yn ddiffyg sylweddol ac roedd angen iddo fod yn rhan systematig o'r agenda.

5.1.7. Roedd aelodau'n cydnabod bod data yn aml yn cynrychioli perfformiad hanesyddol, a bod angen datblygu mesurau mwy cyfredol i fesur canlyniadau, mae'n bwysig bod y gwaith yma'n cael ei flaenoriaethu, er mwyn helpu'r bwrdd i ymateb i berfformiad cyfredol.

5.1.8. Roedd angen gwneud mwy i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Doedd dim sôn wedi bod am hyn yn ddiweddar yn y Bwrdd. Doedd dim byd yn nerbynfa'r YOS i ddynodi ei fod yn gadarnhaol am ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Nid oedd y Gymraeg wedi'i hymgorffori mewn cyfarchion ffôn neu gyfarchion eraill chwaith. Doedd dim cyfarwyddyd ynghylch sut i ymateb os oedd siaradwr Cymraeg yn ffonio'r YOS.

5.1.9. Roedd gan yr heddlu gynrychiolaeth dda ar y bwrdd, gan Uwch-arolygydd (comander lleol) ac Arolygydd y partneriaethau. Roedd hyn yn dangos ymrwymiad cryf i'r YOS a chynrychiolaeth ar lefel ddigon uchel.

5.1.10. Roedd cynrychiolaeth iechyd ar y bwrdd ond roedd hyn mewn perthynas ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl yn unig. Doedd dim cynrychiolaeth oddi wrth wasanaethau iechyd eraill. Fe glywom fod *"iechyd braidd byth ar yr agenda"* mewn cyfarfodydd a bod iechyd yn *"anaml yn cael ei weld fel mater sydd angen unrhyw sylw".* Heb wybodaeth systematig a rheolaidd am yr holl wasanaethau, ni all y bwrdd fod yn effeithiol wrth asesu effeithiolrwydd y gwaith na phenderfynu pa wasanaethau i'w comisiynu.

5.1.11. Roedd y cynrychiolydd addysg yn newydd yn y rôl ac felly roedd yn rhy fuan i ddweud pa mor effeithiol byddai hi wrth godi proffil addysg a gwella adnoddau a chyflwyniad gwasanaethau.

5.1.12. Yn hanesyddol roedd y gwasanaeth prawf wedi gwneud ymrwymiad cadarnhaol i waith y YOS a'r bwrdd, er ar adeg yr arolygiad, nid oedd yn glir sut byddai hyn yn cael ei gymryd ymlaen yn sgil y newidiadau sylweddol sydd ar y gweill yn y Gwasanaeth Prawf.

5.1.13. Roedd rheolwr y YOS yn cyfrannu ar lefel leol i waith y Bwrdd Amddiffyn Plant rhanbarthol ac yn sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng yr agenda diogelu ehangach hon a gwaith Bwrdd Rheoli'r YOS.

5.1.14. Ar lefel strategol nid oedd y YOS wedi'i ymwreiddio'n ddigonol yn nhrefniadau strwythurol ehangach ar gyfer gwasanaethau plant. Yn benodol yn y 12 mis diwethaf, roedd uwch reolwyr wedi adnabod bod rhai o'r galwadau cystadleuol

eraill a wynebir gan wasanaethau plant wedi cymryd blaenoriaeth dros waith y YOS.

## 5.2. Partneriaethau – partneriaethau effeithiol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol

5.2.1. Ar lefel strategol roedd y cysylltiadau rhwng y YOS a'r Bwrdd Rheoli â phartneriaethau lleol yn gyffredinol yn gadarnhaol.

5.2.2. Roedd y gostyngiad sylweddol diweddar mewn rhai sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf yn nodedig, er o bwynt cychwyn isel. Roedd yn dystiolaeth o sut mae gweithio mewn partneriaethau lleol yn gallu bod yn effeithiol. Roedd yn cynyddu hyder a dealltwriaeth rhwng partneriaid.

5.2.3. Roedd y penderfyniadau untro, yn y mwyafrif o sefyllfaoedd o droseddu ar lefel isel gan blant a phobl ifanc yng Nghasnewydd heb gofnod troseddol blaenorol, yn cael eu gwneud gan heddwas YOS. Roedd hyn wedi helpu sicrhau ymagwedd gyson a chreadigol. Ar y cyd â'r 'biwro[1]' roedd wedi golygu bod pob penderfyniad untro yn ymwneud â chyfiawnder adferol, a chyfran uchel o'r rhybuddion a ddefnyddiwyd, yn arwain at gyfeiriad priodol am waith ymyrraeth cynnar trwy wasanaethau atal yr awdurdod lleol. Roedd hyn wedi cyd-fynd â gostyngiad sylweddol yn nifer y rhai sy'n dod i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol am y tro cyntaf a chredir mai dyma'r prif reswm am hyn.

5.2.4. Roedd Casnewydd yn gweithredu ymagwedd fiwro at fwyafrif y digwyddiadau eraill o droseddu gan blant a phobl ifanc. Panel y biwro oedd yn penderfynu ar y penderfyniad untro cychwynnol. Tra bod hi'n ymddangos bod proses y biwro'n gweithredu'n effeithiol, roedd effeithiolrwydd yr ymyriadau yn codi ohono yn llai clir. Doedd dim monitro na gwerthuso rheolaidd o'r canlyniadau a bennwyd yn y biwro a doedd dim dadansoddiad wedi cael ei gynnal, hyd yma, o'i effaith ar aildroseddu; er roedd cynllun newydd y YOS yn cydnabod bod angen i hyn ddigwydd.

5.2.5. Secondiwyd dau heddwas i YOS Casnewydd. Roedd hyn yn cynrychioli lefel ddigonol o staffio. Roedd yr heddweision yn cael eu parchu gan gydweithwyr yn y YOS, ac yn cael eu cydnabod fel rhan o'r tîm. Roeddent yn treulio mwyafrif eu hamser yn cynnal cyswllt â dioddefwyr ac yn cefnogi'r biwro. Mae'n anarferol i ddefnyddio heddweision y YOS yn y modd yma ac nid oedd yn gwneud defnydd effeithiol o'u sgiliau.

5.2.6. Yn benodol nid oedd hyn yn unol â chyd ganllawiau Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru (ACPO)/ YJB ar ddefnyddio heddweision mewn YOT. Mae'r rhain yn rhoi mwy o bwyslais ar gyfnewid gwybodaeth gan gynnwys cyswllt agos â thimau plismona cymdogol, cefnogi rheolaeth risg uchel o achosion niweidiol y'u rheolir gan y YOS, rheoli achosion mintai'r Rheolaeth Integredig o Droseddwyr a chynorthwyo rheolwyr achos i leoli ac ymdrin â phlant a phobl ifanc sydd wedi torri'u gorchymyn. Tra bod rhai o'r rhain yn digwydd o bryd i'w gilydd, roedd yr amser a oedd yn cael ei ganiatáu i wneud hyn yn gyfyngedig. Dylid addasu'r rôl fel bod ganddi ffocws digonol ar y meysydd allweddol o waith y'u hamlinellir uchod, a thrwy hynny'n gwneud cyfraniad mwy sylweddol i leihau breuder plant a phobl ifanc, amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu.

[1] Roedd biwro Casnewydd yn cynnwys uwch heddwas, rheolwr achos y YOS ac aelod cymunedol. Roedd troseddau gan blant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio at y biwro am benderfyniad untro cychwynnol oni bai bod digon o ddifrifoldeb i olygu mai dim ond y llysoedd gallai ddelio gyda nhw. Roedd y biwro'n derbyn adroddiad ynglŷn â'r plentyn a pherson ifanc ac yn penderfynu a ddylid rhoi rhybudd ffurfiol neu rybudd amodol, ynghyd â chyfeiriad at asiantaethau perthnasol os oes angen, neu i gyfeirio'r achos am erlyniaeth.

5.2.7. Roedd ymglymiad tîm rheoli'r YOS yng nghyfarfodydd rheolwr tîm y gwasanaethau plant yn gyfyngedig; roedd hyn yn golygu na fod gan reolwyr YOS y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn yr awyrgylch ehangach. Nid oedd gan weithwyr YOS a gweithwyr cymdeithasol yn nhimau gwasanaethau plant eraill ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau ei gilydd. Roeddem yn falch o weld y drafft cychwynnol diweddar iawn o bolisi cydweithio rhwng y YOS a gwasanaethau plant, a gobeithiwn y bydd rhoi hwn ar waith yn arwain at berthnasau gwaith mwy effeithiol.

5.2.8. Roedd dryswch ynghylch mynediad at e-byst diogel ac ynghylch mynediad staff at y system rheoli achosion gwasanaethau plant (CCM), ynghyd â diffyg hyder staff YOS yn defnyddio CCM, yn rhwystro rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng YOS a thimau gwasanaethau plant yn ehangach.

5.2.9. Roedd y YOS yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag amrywiaeth o ddarparwyr er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg a hyfforddiant priodol. Fodd bynnag, roedd nifer o'r sawl o oedran ysgol statudol ddim yn derbyn yr oriau gofynnol ac roedd rhai yn derbyn ychydig oriau'n unig o addysg. Roedd yna ddarlun yr un mor annigonol ar gyfer y sawl yn hŷn nag oedran ysgol statudol gyda diffyg opsiynau addas ar gyfer anghenion y grŵp hwn. Nid oedd digon yn cael ei wneud i ddarbwyllo cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i ymrwymo â phlant a phobl ifanc y YOS.

5.2.10. Yn gyffredinol, nid oedd yr awdurdod lleol yn talu digon o sylw i wella canlyniadau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn hysbys i'r YOS. Nid oedd yn cymryd sylw digonol o anghenion plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu yn eu prosesau cynllun strategol. Nid oedd yn rheolaidd yn casglu neu ddadansoddi data ar eu perfformiad addysgol neu'n eu blaenoriaethu fel grŵp a oedd angen cefnogaeth arbenigol o fewn cynllunio gwasanaethau cynhwysiant.

5.2.11. Roedd 'Paneli Symudiadau wedi'u Rheoli' yr awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol i ddod o hyd i ddarpariaeth addas ar gyfer plant a phobl ifanc gyda phroblemau ymddygiad a phresenoldeb. Roedd y panel yn cynnwys gweithiwr addysg y YOS. Roedd aelodau'r panel yn gwerthfawrogi'u chyfraniadau a'r wybodaeth o ansawdd da roedd hi'n darparu. Roedd hyn yn eu helpu i gyfeirio plant a phobl ifanc at ddarpariaeth briodol.

5.2.12. Roedd diffyg dilyniant wedi bod yng nghefnogaeth addysg yn y YOS oherwydd cyfnodau o absenoldebau mamolaeth. Roedd yr adran addysg wedi darparu datrysiadau annigonol. Roedd hyn wedi amharu'n sylweddol ar y gefnogaeth roedd asiantaethau partner yn ei derbyn o'r YOS, ac ansawdd yr asesu a chynllunio o fewn yr YOS.

5.2.13. Roedd cytundebau lefel gwasanaeth yn eu lle gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a oedd yn cyflogi'r nyrs clinigol arbenigol, a gyda Barnado's a oedd yn cefnogi'r gweithiwr camddefnyddio sylweddau. Roedd cyfnod y ddau wedi darfod. Byddai diweddaru cytundebau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes yn helpu sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn addas ar gyfer anghenion y YOS.

5.2.14. Roedd YOS Casnewydd yn ymrwymo'n dda yn nhrefniadau Rheolaeth Troseddwyr Integredig (IOM) ar lefelau strategol a gweithredol.

## 5.3. Rheoli'r gweithlu – mae rheolaeth effeithiol o'r gweithlu'n cefnogi cyflwyno gwasanaeth o ansawdd

5.3.1. Nid oedd grŵp rheoli'r YOS yn gweithio'n dda fel tîm rheoli effeithiol. Roedd rheolwyr yn mabwysiadu ymagweddau gwahanol i rôl y YOS a'i blaenoriaethau ar gyfer lleihau troseddu a gan hynny gwneud gwahaniaeth i gyfleoedd bywyd y plant a phobl ifanc gyda phwy maen nhw'n gweithio. Roedd staff yn ymwybodol o negeseuon anghyson gan reolwyr o bryd i'w gilydd. Yn sgil hyn roedd dryswch ymhlith staff ynglŷn â beth oedd yn ddisgwyliedig, ac roedd hyn yn effeithio ar berfformiad a chydlyniad tîm yr YOS yn ogystal â thanseilio rheolwyr eraill. Mae sicrhau bod y grŵp rheoli'n gweithio'n effeithiol yn hanfodol i allu'r YOS i wneud gwelliannau cyflym a chynaliadwy.

5.3.2. Doedd dim ymagwedd systematig neu gyson i sicrhau ansawdd ymarfer. Roedd cofnodion goruchwylio a thrafodaethau gyda staff yn dynodi bod gan reolwyr agweddau gwahanol iawn at hyn. Ble roedd sicrwydd ansawdd wedi cael ei wneud, roedd hyn weithiau'n ymwneud yn fwy â gwirio bod y prosesau wedi cael eu rhoi ar waith yn hytrach na herio ansawdd y gwaith. Ble roedd ansawdd y gwaith wedi cael ei adolygu, roedd yr un problemau yn aml yn cael eu nodi yng nghofnodion diweddarach, gyda thystiolaeth annigonol bod camau effeithiol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â hwy.

5.3.3. Nid oedd y YOS wedi'i gynnwys mewn gweithgareddau rheolaeth perfformiad hir sefydlog a sicrhau ansawdd oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd gan wasanaethau plant; diffyg oedd hefyd yn effeithio'n wael ar ymwybyddiaeth uwch reolwyr o berfformiad y YOS.

5.3.4. Roedd system dda i reoli'r staff iechyd. Roedd y nyrs arbenigol yn cael ei oruchwylio'n glinigol gan arweinydd iechyd meddwl Gwent, a'i oruchwylio'n weithredol gan reolwr y YOS. Roedd y gweithiwr camddefnyddio sylweddau yn cael ei oruchwylio gan ei reolwr llinell o Barnardo's a rheolwr y YOS. Roedd y ddau weithiwr yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda.

5.3.5. Roedd anwythiad yr heddwas diweddaraf i'r YOS yn annigonol. Cafodd ei wneud dros bythefnos ond roedd yn bennaf yn cynnwys treulio amser gydag amryw o unigolion roedd hi'n mynd i weithio â nhw, heb unrhyw hyfforddiant craidd addas ar gyfer y rôl, er enghraifft, diogelu plant neu'r system rheoli achosion.

5.3.6. Roedd yn amlwg bod lefel y gefnogaeth weinyddol ar gael i'r YOS, o'i gymharu â'i maint, yn sylweddol o lai na'r hyn rydym yn gweld. Yn wir roedd diffyg cydlyniad mewn nifer o agweddau'r gwaith, a dyma'n aml fyddai cyfrifoldeb y staff gweinyddol yn sefydliadau YOT eraill.

5.3.7. Yn ddiweddar roedd gostyngiad wedi bod yn yr adnoddau a oedd ar gael i fynd i'r afael ag anghenion ETE yn y YOS. Tra roedd swydd gweithiwr addysg yn dal i fodoli, roedd hon bellach dim ond yn cael ei hariannu am 1 ½ niwrnod yr wythnos. Roedd hyn wedi lleihau'n sylweddol yr amser oedd ar gael ar gyfer gwaith gyda phlant o oedran statudol. Roedd y swydd yn cael ei reoli trwy'r adran gwasanaethau cymdeithasol. Roedd hyn yn gadael y gweithiwr heb gefnogaeth a goruchwyliaeth proffesiynol digonol o'r adran addysg.

5.3.8. Roedd y trefniadau ar gyfer Gyrfa Cymru wedi cael eu hadolygu ac roedd gweithiwr yn mynychu am brynhawn bob pythefnos. Roedd gweithwyr YOS wedi cynyddu'u cyfeiriadau ac ymddengys bod y trefniadau newydd hyn yn llwyddiannus.

## 5.4. Sefydliad sy'n dysgu – mae dysgu a gwella'n cynyddu'r tebygolrwydd o gyflawni a chynnal canlyniadau cadarnhaol

5.4.1. Roedd y staff y gwnaethom gwrdd â hwy yn ymrwymedig i blant a phobl ifanc, yn gyffredinol yn frwdfrydig ac eisiau dysgu a gwella.

5.4.2. Nid oedd yr awdurdod addysg lleol yn cynnwys gwasanaeth a ddarparwyd trwy'r YOS yn ei drefniadau hunanasesu. Nid oedd uwch reolwyr yn monitro nac adolygu cynlluniau, ymyriadau na chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc oedd yn troseddu. Roedd y YOS wedi creu cynllun gweithredu addas oedd yn cynnwys amcanion ar welliannau addysg. Fodd bynnag, nid oedd gan y rhain dargedau mesuradwy a doedd dim darlun clir o sut roedd y plant a phobl ifanc ynghlwm â'r YOS yn cynyddu gyda'u haddysg.

5.4.3. Doedd dim systemau clir i fonitro a gan hynny sicrhau ansawdd y gwasanaethau iechyd a ddarparwyd i blant a phobl ifanc. Casglwyd y canlyniadau ar gyfer gwaith camddefnyddio sylweddau ynghyd er mwyn bodloni meini prawf cyllido. Ni chasglwyd y canlyniadau ar gyfer gwaith y nyrs clinigol arbenigol ynghyd. Doedd dim gwerthusiad uniongyrchol o ran a oedd y gwaith hwn yn lleihau aildroseddu yn y naill achos na'r llall.

5.4.4. Nid oedd data o asesiadau Asset yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, na chwaith effaith y defnydd o ymyriadau a ddefnyddiwyd, i fonitro gwelliannau yng ngwahanol agweddau o waith gallai fod yn gysylltiedig â throseddu.

5.4.5. Nid oedd staff yn cynnal asesiadau addysg sylfaenol ac yn sgil hyn nid oeddent yn gallu mesur cynnydd y plant a phobl ifanc. Nid oedd y YOS yn casglu data ar gyraeddiadau addysgol er mwyn monitro canlyniadau.

5.4.6. Nid oedd y YOS yn rheolaidd yn ceisio a defnyddio barn y defnyddwyr gwasanaeth er mwyn gwella'i gwasanaethau, er roedd yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â hyn.

### Crynodeb

*Yn gyffredinol roedd effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a phartneriaethau yn wael.* Nid oedd y Bwrdd Rheoli wedi sicrhau bod y gwaith i leihau troseddu yn effeithiol nac o ansawdd digonol. Nid oedd y wybodaeth roedd y bwrdd rheoli yn defnyddio i gefnogi hyn yn ddefnyddiol chwaith. Roedd Casnewydd wedi cyflawni gostyngiadau sylweddol yn nifer y rhai sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf, ac roeddem yn falch o weld bod cyfiawnder ieuenctid yn cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau lleol allweddol, er roedd gwaith pellach i'w wneud er mwyn sicrhau bod modd monitro'r rhain yn effeithiol. Roedd angen i'r cynnig o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg bod yn fwy rheolaidd. Doedd dim ymagwedd gadarn neu gyson er mwyn sicrhau ansawdd yr ymarfer ac roedd staff wedi'u drysu gan negeseuon cymysg. Roedd hunanfoddhad wedi datblygu ynglŷn â sicrhau arferion o ansawdd da ac roedd morâl yn isel. Roedd datrys y problemau hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni gwelliannau cynaliadwy.

# Thema 6: Ymyriadau i leihau aildroseddu

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**

Ystod o ymyriadau o ansawdd da yn cael eu cyflwyno'n dda, gyda chyswllt clir ag asesiadau a chynlluniau priodol sy'n gwella'r tebygolrwydd o gyflawni gostyngiadau cynaliadwy mewn aildroseddu. Dylai fod ymrwymiad o ansawdd da gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr ar bob adeg o'r gwaith, er mwyn gwella'r tebygolrwydd o gyflawni newid cadarnhaol. Mae angen tystiolaeth o waith arwain a phartneriaeth effeithiol yn y cyflwyniad o ymyriadau.

**Canfyddiadau Allweddol**

1. Nid oedd YOS Casnewydd wedi bod yn effeithiol yn lleihau aildroseddu gan blant a phobl ifanc.
2. Doedd dim llawer o dystiolaeth o gyflwyno ymyriadau o ansawdd da gyda'r bwriad o leihau aildroseddu, er roedd rhai esiamplau o waith creadigol a chadarnhaol.
3. Roedd penderfyniad annigonol er mwyn sicrhau gwaith effeithiol i leihau aildroseddu.
4. Angen gwella asesu a chynllunio'n sylweddol.
5. Nid oedd rheolwyr achos yn ymwybodol o'r ystod o ymyriadau gallai fod ar gael iddynt yn eu gwaith i leihau aildroseddu.
6. Doedd dim ymagwedd systematig i gaffael neu ddatblygu ymyriadau, neu i hyfforddi staff ar eu defnydd.
7. Nid oedd y cynlluniau'n ddigon ystyrlon i blant a phobl ifanc, neu i eraill gallai fod angen eu defnyddio.
8. Roedd rheolwyr achos yn deall egwyddorion ymarfer effeithiol, ond angen iddynt sicrhau eu bod yn cadw at y rhan trwy gydol eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.

**Sgôr asesiad yr achos**

O fewn asesiad yr achos, yn gyffredinol roedd 43% o'r gwaith yn ymwneud â defnyddio ymyriadau i i leihau troseddu yn cael ei wneud yn ddigon da.

**Esboniad o'r canfyddiadau**

6.1. Nid yw'r YOS wedi bod yn effeithiol yn lleihau aildroseddu yn sylweddol gan blant a phobl ifanc yng Nghasnewydd, er roedd canlyniadau cadarnhaol mewn rhai achosion unigol.

***Sylwadau gan blant a phobl ifanc ar ganlyniadau dros dro o'u gwaith gyda'r YOS***

*"Mae wedi gwneud i mi sylweddoli bod hyn ddim yn deimlad da iawn i'r person nes i ddwyn ganddo . . . Roeddwn yn teimlo'n gas wedyn"*

*"Maen nhw wedi fy helpu i gael perthynas gwell gyda fy Mam . . . Rwy'n hapus iawn gyda hyn"*

*". . . .mae fy ffrindiau yn ddylanwad drwg arnaf . . . mae'r tag wedi fy helpu oherwydd rwyf wedi gorfod newid fy ffrindiau. Nid wyf yn gallu mynd allan [gyda'r nos], a dyna pryd maen nhw'n mynd allan"*

6.2. Fel y disgrifir mewn rhan arall o'r adroddiad hwn doedd dim llawer o dystiolaeth o gyflwyno ymyriadau effeithiol o ansawdd da. Roedd angen llawer mwy o benderfyniad er mwyn sicrhau taro cydbwysedd priodol rhwng ymdrin ag anghenion lles ac ymwneud â gwaith i leihau aildroseddu mewn achosion unigol; fel bod rheolwyr achos yn gallu bod yn effeithiol yn eu prif rôl o leihau aildroseddu, a oedd yn hanfodol i drigolion Casnewydd ynghyd ag i'r cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer y plant a phobl ifanc gyda phwy roeddent yn gweithio.

6.3. Nid oedd sylw digonol yn cael ei rhoi chwaith i sicrhau bod unrhyw ganlyniadau cadarnhaol yn gynaliadwy yn dilyn diwedd y ddedfryd.

6.4. Tra bod rheolwyr achos yn adnabod plant a phobl ifanc unigol yn dda, ac yn aml yn gyrru ymlaen yn dda â nhw, nid oedd hyn bob tro'n wir. Bydd y dyfyniadau canlynol gan blant a phobl ifanc yn helpu egluro hyn:

***Sylwadau gan blant a phobl ifanc***
*"Rwyf wir yn hoffi fy rheolwr achos . . . Rwy'n teimlo fel fy mod yn gallu mynd ato gydag unrhyw beth. Mae'n gwrando arnaf ac yn fy neall"*

*"Dydw i ddim yn hoffi nhw'n dweud unrhyw beth wrthyf oherwydd dydw i ddim yn eu hymddiried . . . Rwy'n teimlo fel bo nhw'n fy meirniadu ac mae hynny'n fy ngwylltio"*

*""Ie, maen nhw'n iawn . . maen nhw'n barod i helpu . . maen nhw'n cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd hefyd . ."*

6.5. Yn gyffredinol, roedd yr asesu o ymddygiad yn ymwneud â throseddu a chynllunio ar gyfer gwaith i leihau aildroseddu yn wael, gan olygu bod hi'n annhebygol y byddai'r ymyriadau mwyaf addas yn cael eu hadnabod a'u defnyddio. Roedd asesiad o addasrwydd y plentyn neu berson ifanc ar gyfer ymyriadau penodol yn amlwg mwn traean o achosion yn unig.

6.6. Ychydig o gynlluniau ymyrraeth yn unig oedd yn nodi'n glir pa ddulliau neu adnoddau byddai'n cael eu defnyddio i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig. Ychydig dystiolaeth oedd yno hefyd bod y plentyn neu berson ifanc wedi bod yn rhan o ddatblygiad y cynllun.

6.7. Rydym yn ceisio cadw at gyflawniad y gwaith i leihau aildroseddu yn ystod yr arolygiad. Ni ddarparwyd unrhyw gyfleoedd i ni wneud hyn, a phan ofynnwyd i'r rheolwyr achos adnabod cyfleoedd, nid oeddent yn gallu eu darparu ar ein cyfer. Tra bod ychydig dystiolaeth o gyflwyno ymyriadau creadigol, doedd braidd dim tystiolaeth bod deunydd o ansawdd da'n cael eu defnyddio.

***Defnyddio DVD i fynd i'r afael â siopladrad***
*Cafodd Jade ei chanfod yn euog yn dilyn trosedd siopladrad a oedd wedi'i ysgogi gan ddyhead i fod fel eu ffrindiau, ond nid oedd ganddi'r arian i wneud hynny. Defnyddiodd y rheolwr achos DVD yn dangos effaith siopladrad fel dull o gychwyn trafodaeth fanwl ar effaith siopladrad ar eraill. Roedd gweld yr effaith a'i drafod gyda'i rheolwr achos wedi cael effaith bositif ar Jade.*

6.8. Doedd dim ymagwedd systematig i gaffael ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiad yn ymwneud â throseddu. Nid oedd rheolwyr achos yn ymwybodol o'r ystod o ymyriadau roedd cydweithwyr yn eu defnyddio. Nid oedd unrhyw beth ar gael i staff chwaith i'w helpu i uno nodweddion trosedd ac amrywiaeth y plentyn neu berson ifanc penodol â'r ymyrraeth fwyaf priodol. Yn gyffredinol nid oedd rheolwyr achos yn meddwl bod ystod addas o ymyriadau ar

gael iddynt. Yn benodol roeddent yn dweud bod angen rhoi mwy o sylw i sicrhau bod ymyriadau yn addas i wahanol oedrannau.

6.9. Roedd rheolwyr achos yn cydnabod bod angen gwell hyfforddiant arnynt ar yr ystod o ymyriadau sydd ar gael a sut i'r rhoi ar waith, ynghyd â gwell cefnogaeth i'w targedu'n effeithiol.

6.10. Yn benodol nid oeddent wedi derbyn hyfforddiant digonol i'w cefnogi i adnabod ac ymateb i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, na chwaith mewn amrywiaeth ehangach na ffactorau allai fod yn anffafriol. Roedd effaith hyn yn amlwg mewn asesiadau a chynlluniau, ble mai dim ond hanner oedd wedi rhoi sylw digonol i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymrwymiad. Gyda'i gilydd roedd hyn yn golygu na fod y rheolwyr achos yn gallu bod yn hyderus eu bod yn gallu ymgymryd â gwaith gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu mewn modd y byddai'n cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniad cadarnhaol o'r gwaith hwnnw.

6.11. Roedd gan yr holl reolwyr achos y siaradom â hwy ddealltwriaeth ddigonol o egwyddorion effeithiol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu; fodd bynnag, yn rhy aml nid oedd yr egwyddorion hyn yn cael eu rhoi ar waith yn yr un modd ag oedd y gwaith yn cael ei wneud. Roedd y diffyg sylweddol o adolygu asesiadau, cynlluniau ac ymyriadau yn esiampl o hyn. Yn gyffredinol, dim ond chwarter o achosion oedd yn cynnwys ymyriadau a wnaed yn unol ag ymarfer effeithiol.

6.12. Mae'n bwysig bod rheolwyr achos yn dangos esiampl o ymddygiad rhag-gymdeithasol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, a bod plant a phobl ifanc yn deall bod gan bob un o'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw yr un lefel o ymrwymiad tuag atynt a'u bod yn cydlynu'u gwaith gyda'i gilydd. Mae'r dyfyniadau canlynol yn dynodi mai nid dyma'r sefyllfa ar bob adeg.

***Sylwadau gan blant a phobl ifanc***
*"Pan maen nhw'n cytuno ar amser i gwrdd, dylen nhw gadw ato . . . mae'n fy ngwylltio pan dydyn nhw ddim"*

*"Dydw i ddim yn credu bo nhw'n gweithio fel tîm oherwydd does neb byth yn gwybod beth sy'n digwydd"*

*"Rydym yn dod ymlaen pan rwy'n cael fy rheolwr achos arferol, ond [weithiau] rwy'n cael rhai gwahanol . . . dydyn nhw ddim yn dweud wrthyf pan maen nhw'n anfon rhywun arall"*

6.13. Rhoddodd nifer o blant a phobl ifanc sylwadau negyddol ar ansawdd adeilad y YOS. Er enghraifft, dywedodd un "*Rwy'n casáu dod i'r adeilad yma, edrychwch arno fe, mae'n afiach . . .*"

**Crynodeb**

*Yn gyffredinol roedd gwaith yn ymwneud â chyflwyno ymyriadau i leihau aildroseddu yn wael.* Cawsom anhawster yn dod o hyd i waith a oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Nid oedd gan staff offer digonol i'w cynorthwyo i ddeall pa ymyriadau oedd ar gael, ac i dargedu'r rhain yn briodol i blant a phobl ifanc unigol. Doedd dim cynllunio systematig i gaffael ymyriadau, nac i werthuso pa ymyriadau gallai fod wedi gwneud gwahaniaeth. Roedd angen gwelliannau sylweddol i'r dulliau asesu a chynllunio. Roedd angen rhoi mwy o sylw i leferydd, iaith a chyfathrebu a ffactorau amrywiaeth perthnasol eraill.

# Atodiad 1

### Gwybodaeth gefndirol ynglŷn â'r ardal a arolygwyd

Roedd gan Gasnewydd boblogaeth o 145,736 yn ôl Cyfrifiad 2011. Roedd y boblogaeth ifanc (y sawl rhwng 10 a 17 mlwydd oed) yn cyfri am 10.4% o'r boblogaeth. Roedd hwn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol, sef 9.5%.

Y ganran o'r boblogaeth ifanc gyda thras ddu neu leiafrifol ethnig oedd 13% (Cyfrifiad 2011). Roedd hyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr, sef 18.3%.

Roedd y troseddau a adroddwyd ble dderbyniodd plant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 mlwydd oed waredlad cyn ymddangos gerbron llys neu warediad llys yn 2012/2013, sef 28.9 ym mhob 1,000, yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr o 18.5 (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2012-2013).

### Dangosyddion Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Mae dangosyddion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn fesurau cenedlaethol o waith a pherfformiad y YOT:

#### *Mesurau aildroseddu:*

(i) O'r plant a'r bobl ifanc hynny a dderbyniodd gerydd, rhybudd terfynol, collfarn llys neu a gafodd eu rhyddhau o'r ddalfa neu a gafodd brawf positif am gyffur Dosbarth A wrth gael eu harestio, y gyfran a aildroseddodd o fewn cyfnod adrodd o 12 mis. Y gyfradd aildroseddu ar gyfer Casnewydd oedd 37.6%, sy'n waeth na'r 35.5% ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol.

(ii) O'r plant a'r bobl ifanc hynny a dderbyniodd gerydd, rhybudd terfynol, collfarn llys neu a gafodd eu rhyddhau o'r ddalfa neu a gafodd brawf positif am gyffur Dosbarth A wrth gael eu harestio, nifer yr aildroseddau o fewn 12 mis, fesul 100 o blant a phobl ifanc yn y categori hwn. Ar gyfer Casnewydd, roedd 1.22 trosedd fesul plentyn a pherson ifanc sy'n aildroseddu, sy'n waeth na'r 1.02 ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol.

(Data yn seiliedig ar fintai Ebrill 2011 i Fawrth 2012)

#### *Mesur y rhai sy'n dod i mewn i'r system am y tro cyntaf:*

Nifer y plant a phobl ifanc a dderbyniodd gerydd, rhybudd terfynol neu gollfarn llys cyntaf (a thrwy hynny wedi dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid) mewn cyfnod o 12 mis, fel cyfran fesul pob 100,000 o'r sawl rhwng 10 a 17 mlwydd oes yn y boblogaeth leol yn gyffredinol. Y ffigwr ar gyfer Casnewydd yw 611, o'i gymharu â 444 ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol.

(Data yn seiliedig ar fintai Ionawr 2013 i Ragfyr 2013)

#### *Mesur y defnydd o'r ddalfa:*

Nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn collfarn mewn llys sy'n cael eu dedfrydu i gyfnod o 12 mis yn y ddalfa, fel cyfran fesul pob 1,000 o'r sawl rhwng 10 a 17 mlwydd oes yn y boblogaeth leol yn gyffredinol. Y ffigwr ar gyfer Casnewydd yw 1.35, o'i gymharu â 0.51 ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol.

(Data yn seiliedig ar fintai Ebrill 2013 i Fawrth 2014)

# Atodiad 2

### Gwybodaeth gefndirol ynglŷn â sampl yr achos a arolygwyd

Yn yr wythnos gyntaf o waith maes edrychom ar sampl gynrychiadol o 32 achos unigol hyd at 12 mis oed, rhai'n gyfredol, eraill wedi dod i ben. Roedd y rhain yn cynnwys achosion haen gyntaf (gorchmynion cyfeirio a gorchmynion gwneud yn iawn), gorchmynion adfer ieuenctid (yn bennaf y rheini gyda gofynion goruchwylio), Gorchmynion Cadw a Hyfforddi a dedfrydau gwarchodol eraill.

Nod y sampl oedd adlewyrchu gwneuthuriad y llwyth achosion llawn ac roedd yn cynnwys nifer o'r sawl sydd mewn perygl uchel o niweidio eraill, sy'n arbennig o agored i niwed, sy'n fenywod ifanc, neu sy'n blant neu bobl ifanc dduon neu leiafrifol ethnig.

# Atodiad 3

## Cydnabyddiaeth

| | |
|---|---|
| **Prif Arolygydd** | Ian Menary, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Dirprwy Brif Arolygydd** | Iolo Madoc-Jones, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Tîm Arolygu** | Rachael Bubalo, *Estyn* |
| | Paul Eveleigh, *Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi* |
| | Bobbie Jones, *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru* |
| | Beverley Reid, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Nia Roberts, *Arolygiaeth Iechyd Cymru* |
| | Kayleigh Aubrey, *Swyddog Ymrwymiad Defnyddwyr* |
| | Tony Rolley, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| | Joe Coleshill, *Aseswr Lleol* |
| **Gwasanaethau Cymorth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi** | Joanna Hewitt, *Swyddog Gwasanaethau Cymorth* |
| | Rob Turner, *Rheolwr Gwasanaethau Cymorth* |
| | Oli Kenton, *Swyddog Ymchwil Cynorthwyol* |
| **Prif Arolygydd Cynorthwyol** | Julie Fox, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |

# Atodiad 4

### Trefniadau arolygu

Mae rhaglen y Cydarolygiadau Llawn (FJI) yn arolygu gwaith troseddwyr ifanc mewn nifer fechan o ardaloedd awdurdodau lleol bob blwyddyn. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar ansawdd y gwaith mewn achosion statudol cymunedol a gwarchodol yn ystod y ddedfryd hyd at y dyddiad arolygu. Ei nod yw ceisio sicrwydd bod y gwaith yn cael ei wneud yn ddigon da i gyflawni'r canlyniadau cywir. Dyma'r pum thema craidd ar gyfer yr arolygiad hwn:

- lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu
- amddiffyn y cyhoedd
- amddiffyn y plentyn neu berson ifanc
- sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni
- llywodraethu a phartneriaethau.

### Methodoleg

Ymgymerwyd â'r gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn yn ystod yr wythnosau'n cychwyn:

12fed Mai 2014 a'r 2il Fehefin 2014.

Rydym yn hysbysu YOTs 11 niwrnod gwaith cyn cynnal yr arolygiad. Y prif ffocws yw ansawdd y gwaith gwnaethpwyd gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddau, pwy bynnag sy'n ei wneud. Caiff achosion eu harolygu gan dîm o staff arolygu gydag aseswyr lleol (aseswyr cymheiriaid o YOT arall). Maen nhw'n archwilio'r rhain gyda rheolwyr achos, y'u gwahoddir i drafod eu gwaith yn fanwl, a gofynnir iddynt esbonio trywydd meddwl ac i enwi tystiolaeth gefnogol yn y cofnod.

Cyn, neu yn ystod, yr wythnos gyntaf yma rydym yn derbyn copïau o ddogfennau lleol perthnasol. Yn ystod yr wythnos yn y canol, caiff y data o'r asesiadau achos ei gasglu ynghyd ac mae darlun o ansawdd gwaith y YOT yn ymddangos.

Yr ail wythnos o waith maes yw'r elfen ar y cyd o'r arolygiad – Mae cydweithwyr heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol ad addysg yn ymuno ag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i archwilio mewn mwy o fanylder y themâu sydd wedi dod i'r amlwg yn yr asesiadau achos hyn. Yn benodol, archwilir elfennau arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth yr arolygiad, i'r graddau y maen nhw'n cyfrannu, neu fel arall, at ansawdd y gwaith y gwnaethpwyd.

Yn ystod yr wythnos hon rydym hefyd yn casglu barn pobl eraill, gan gynnwys rheolwyr strategol, staff a defnyddwyr gwasanaeth – plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr, a ble fo'n bosib rydym yn goruchwylio gwaith yn cael ei wneud.

Ar ddiwedd ail wythnos y gwaith maes rydym yn cyflwyno'n canfyddiadau i reolwyr strategol lleol, Tîm Rheoli'r YOT, Staff y YOT a phartïon eraill â diddordeb.

### Trefniadau cyhoeddi

Anfonir adroddiad drafft at y YOT am sylwadau dair wythnos ar ôl yr arolygiad, a chaiff ei gyhoeddi tua chwe wythnos yn ddiweddarach. Ar ben hyn, anfonir copi at y Gweinidogion perthnasol, arolygiaethau eraill, Grŵp Polisi y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r YJB. Mae copïau hefyd ar gael i'r wasg ac yn cael eu rhoi ar ein gwefan.

Mae adroddiadau FJI yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â sut cynhelir yr arolygiadau hyn ar ein gwefan yn y ddogfen *'Fframwaith ar gyfer y Rhaglen Cydrolygiadau Llawn* ar:

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/

# Atodiad 5

**Ymagwedd sgorio**

Mae hwn yn disgrifio'r fethodoleg ar gyfer pennu sgôr i bob un o'r themâu craidd:

- Lleihau aildroseddu.
- Amddiffyn y cyhoedd.
- Amddiffyn y plentyn neu berson ifanc.
- Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni.

Mae staff arolygu yn archwilio pa mor dda y gwnaethpwyd y gwaith ar draws yr achos – o asesu i gynllunio i ymyriadau a chanlyniadau, gan ganolbwyntio ar ba mor aml y gwnaethpwyd pob agwedd o'r gwaith yn ddigon da. Mae hwn yn dod â pherfformiad ar elfennau ymarfer cysylltiedig o'r holl achosion y'u harchwilir at ei gilydd.

Mae pob cwestiwn sgorio yn y dull arolygu yn cyfrannu at y sgôr ar gyfer adran berthnasol yr adroddiad. Mae'r themâu craidd, gan hynny, yn canolbwyntio ar y canlyniadau allweddol.

Mae'r ymagwedd hon yn ein caniatáu i ddweud pa mor aml y gwnaethpwyd pob agwedd o waith yn ddigon da, ac yn darparu'r YOT sy'n cael ei arolygu gyda ffocws clir o ran y gweithgareddau i'w gwella. Mae pob thema craidd yn derbyn sgôr ar ffurf canran (meintiol), ynghyd â disgrifiad, cyn cael graddfa seren dros dro.

| Sgôr asesiad yr achos | Disgrifiad | Graddfa seren |
|---|---|---|
| 80% + | Da | ★★★★ |
| 65% - 79% | Boddhaol | ★★★ |
| 50% - 64% | Anfoddhaol | ★★ |
| < 50% | Gwael | ★ |

Mae pob un o'r themâu hyn yn cynnwys elfennau o arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth na ellir dangos tystiolaeth ohonynt trwy'r system sgorio ar gyfer achosion unigol, ac sydd yn ffocws penodol o waith arolygiaethau partner. Ar yr adegau hyn mae proses cymedroli yn cymryd yr elfennau hyn i ystyriaeth er mwyn pennu'r disgrifiad terfynol.

Mae modiwlau ychwanegol yn cael eu sgorio gan ddefnyddio dull tebyg.

Os oes diffygion difrifol sydd heb fynd i'r afael â hwy, mewn achosion unigol, yn ymwneud â'r risg o'r plentyn neu berson ifanc yn dioddef neu'n peri niwed sy'n gadael rhywun mewn perygl, gallai hynny olygu bod angen cyfyngu ar y raddfa seren.

Gellir gweld manylion pellach am y broses hon ar ein gwefan.

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/

# Atodiad 6

### Meini prawf

Ceir diffiniad o'r agweddau o waith troseddwyr ifanc a gynhwysir yn themâu craidd yr arolygiad hwn yn y Meini Prawf Arolygu ar gyfer Arolygiad Llawn ar y Cyd. Mae copi o'r meini prawf arolygu ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar y cyfeiriad canlynol:

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/

Cyhoeddir meini prawf ar wahân ar gyfer pob modiwl ychwanegol a arolygir, sydd ar gael o'r un cyfeiriad.

# Atodiad 7

**Rhestr Termau**

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol/gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| Asset | Dull asesu strwythuredig wedi'i seilio ar ymchwil a'i datblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sy'n edrych ar drosedd, amgylchiadau personol, ymagwedd a chredoau'r plentyn neu berson ifanc sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddol |
| CAF | Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc ac o sut gellir bodloni'r anghenion hynny. Caiff ei wneud gan y prif weithiwr proffesiynol mewn achos, gyda chyfraniadau oddi wrth bawb arall sydd ynghlwm â'r unigolyn hwnnw |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac ymddygiadol i blant a phobl ifanc hyd at o leiaf 16 mlwydd oed |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol. Yn cynnwys unrhyw asiantaeth, neu bob un, sydd ynghlwm â chynnal y gyfraith a'i roi ar waith – yr heddlu, y llysoedd, Timau Troseddwyr Ifanc, y gwasanaeth prawf a charchardai |
| DTO | Gorchymyn Cadw a Hyfforddi: dedfryd o garchar ar gyfer yr ifanc |
| Estyn | Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| ETE | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysgu unigolion, ac i gynyddu'u rhagolygon am waith |
| FTE | Cyfwerth ag amser llawn |
| HM | Ei Mawrhydi |
| Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi | Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi |
| Ymyriadau; *ymyriadau adeiladol a chyfyngol* | Gwaith gydag unigolyn gyda'r bwriad o newid ei ymddygiad troseddol a/neu i gefnogi amddiffyn y cyhoedd.<br>*Ymyrraeth adeiladol* yw pan mai'r prif ddiben yw gostwng y tebygolrwydd o aildroseddu.<br>*Ymyrraeth cyfyngol* yw pan mae'r prif ddiben yw lleihau cymaint ag a ellir risg yr unigolyn o niweidio eraill.<br>Esiampl: gyda throseddwr rhyw, gallai *ymyrraeth adeiladol* olygu eu rhoi ar raglen achrededig ar gyfer troseddwyr rhyw; gallai *ymyrraeth cyfyngol* (i leihau'r risg o niwed) olygu monitro'n rheolaidd ac yn drwyadl eu llety, eu gwaith a'r lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw'n rheolaidd, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol ym mhob achos.<br>Noder. Mae'r ddau fath o ymyrraeth yn bwysig |
| ISS | Goruchwylio ac Arolygu Dwys: mae'r ymyrraeth hon yn gysylltiedig â chychwyn rhai gorchmynion a thrwyddedau ac i gychwyn mae'n darparu o leiaf 25 awr o gyswllt rhaglen gan gynnwys cyfran helaeth o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg |
| Tebygolrwydd o aildrosedd | Gweler hefyd *ymyriadau adeiladol* |
| LSC | Cyngor Dysgu a Sgiliau |
| LSCB | Bwrdd Lleol Diogelu Plant: wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgil Deddf Plant 2004) i gydlynu a sicrhau effeithiolrwydd gwaith aml-asiantaeth i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ardal honno |

| | |
|---|---|
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: ble mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n peri mwy o risg o niweidio eraill |
| Ofsted | Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hyn yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn) |
| PCT | Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol |
| Cyn-CAF | Yn syml, 'Cais am Wasanaeth' yw hwn ar gyfer yr adegau hynny pan fo ddim angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei defnyddio i wneud cais am un neu ddwy wasanaeth ychwanegol, er enghraifft iechyd, gofal cymdeithasol neu addysgol |
| PSR | Adroddiad Cyn Dedfrydu: ar gyfer llys |
| RMP | Cynllun rheoli risg: cynllun i leihau risg yr unigolyn o niwed |
| *Risg o niweidio eraill* | Gweler hefyd *ymyriadau cyfyngol* |
| *'Gwaith risg o niwed i eraill', neu 'Gwaith risg niweidiol'* | Dyma'r term y defnyddir yn gyffredinol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i ddisgrifio gwaith i amddiffyn y cyhoedd, yn bennaf gan ddefnyddio *ymyriadau cyfyngol,* er mwyn lleihau cymaint ag a ellir cyfle'r unigolyn i ymddwyn mewn modd sy'n debygol o beri risg o niwed i eraill |
| RoSH | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn Asset. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi beidio â defnyddio'r term hwn oherwydd nid yw'n helpu egluro'r gwahaniaeth rhwng *tebygolrwydd* ddigwyddiad ac *effaith/difrifoldeb* digwyddiad. Mae'r term *Risg o Niwed Difrifol* yn cynnwys effaith 'difrifol' yn unig, tra bod defnyddio 'risg o niwed' yn caniatáu rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny y mae ymddygiad niweidiol gydag *effaith/difrifoldeb* is yn *debygol* |
| Diogelu | Y gallu i ddangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau cymaint ag a ellir risg plentyn neu berson ifanc rhag ddod i niwed |
| Ymagwedd Raddedig | Y dull mae Timau Troseddwyr Ifanc yn ei ddefnyddio i bennu amlder y cyswllt gyda phlentyn neu berson ifanc, yn seiliedig ar ei RoSH a'r tebygolrwydd o aildroseddu |
| SIFA | Cyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: Y dull o sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gweithwyr arbenigol |
| SQIFA | Holiadur Cyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: Y dull o sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc |
| VMP | Cynllun rheoli breuder: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn dan oruchwyliaeth |
| YJB | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr |
| YOI | Sefydliad Troseddwyr Ifanc: Sefydliad y Gwasanaeth Carchardai ar gyfer plant a phobl ifanc y'u cedwir yn y ddalfa neu'n cael eu ddedfrydu i fynd i'r ddalfa |
| YOIS+ | System Wybodaeth Troseddwyr Ifanc: un o'r ddwy system rheoli achosion yn electronig ar gyfer gwaith troseddwyr ifanc sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru a Lloegr |
| YOS/YOT/YJS | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid/Tîm Troseddwyr Ifanc/System Cyfiawnder Ieuenctid. Dyma'r teitlau cyffredin ar gyfer y cyrff a gyfeirir atynt yn aml fel YOT |

| | |
|---|---|
| YRO | Dedfryd gymunedol gyffredinol yw'r orchymyn adsefydlu ieuenctid y'i defnyddir gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu |

# Atodiad 8

### Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer

Ceir gwybodaeth ar rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar ein gwefan:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwneud sylwad ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

HM Chief Inspector of Probation
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX